# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6
# Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau
# Adroddiad 2020 – 2022
# Blaengynllun y Ddyletswydd Bioamrywiaeth 2023 - 2025.
# Cyngor Dinas Casnewydd

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

**Rhagymadrodd**

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn Awdurdod Cyhoeddus fel y'i diffinnir gan Adrannau 6(9) a 6(10) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, felly mae'n rhaid iddo gyflawni'r dyletswyddau a nodir yn Adran 6 ac yn adrannau eraill o'r Ddeddf honno.

Dyma'r dyletswyddau hynny:

**Mae'n rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, wrth arfer ei swyddogaethau.**

## 1.0 Cyflwyniad

1.01 Mae Awdurdod Unedol Casnewydd yn cynnwys arwynebedd ychydig dros 73.5 milltir sgwâr ac yn gweithredu fel porth rhwng Cymru a Lloegr. Mae'n ddinas fywiog, amlddiwylliannol sydd wedi'i thrwytho mewn treftadaeth ddiwydiannol gyfoethog, lle mae diwydiannau traddodiadol yn eistedd ochr yn ochr â sectorau electroneg a gwasanaethau ariannol newydd.

1.02 Fel Awdurdod Lleol, mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gyfrifol am:-

- Adfywio'r Ddinas, Datblygu Economaidd, Gwaith a Sgiliau, Cynllunio, Rheoli Adeiladu a Datblygu Cyrchfan – Twristiaeth, Diwylliant, Amgueddfeydd, Y Bont Gludo, Llong Casnewydd, Casnewydd Fyw.
- Tai Strategol, Anghenion Tai a Digartrefedd, Y Grant Cymorth Tai/Cefnogi Pobl, Adfywio Cymunedol, Cydlyniant Cymunedol, VPRS.
- Gwastraff a Glanhau, Tiroedd, Gwarchod y Cyhoedd, Parciau a Hamdden, Mynwentydd a'r Amlosgfa, Newid Hinsawdd, Bioamrywiaeth.
- Priffyrdd, Trafnidiaeth, Llifogydd, Fflyd, Prosiectau Peirianneg, Teithio Llesol, SAB, Argyfyngau Sifil.
- Cyfreithiol, Yswiriant, Cofrestru, Crwner, Gwasanaethau Democrataidd, Cofrestru Etholiadol, - Cefnogi Prosiectau Buddsoddiad Economaidd Mawr.
- AD a Datblygu Sefydliadol/Iechyd a Diogelwch, Polisi a Phartneriaeth, Hyb Gwybodaeth, Gwasanaethau Digidol a Chwynion, Trawsnewid Busnes, Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu, Asedau.
- Cyfrifeg, Incwm a Threth, Budd-daliadau, Archwilio Mewnol, Caffael a Thaliadau, Gwasanaethau Cwsmeriaid, - Cefnogi Prosiectau Buddsoddi Economaidd Mawr.
- Timau Gwaith Cymdeithasol Plant, Cyfiawnder Ieuenctid, Diogelu, VAWDASV, Preswyl a Gweithrediadau, Maethu a Mabwysiadu.
- Timau Gwaith Cymdeithasol Oedolion, Gwasanaethau Preswyl a Dydd, Datblygu Gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyswllt Cyntaf, Gartref yn Gyntaf, Gofal a Reolir, Comisiynu, Eiddilwch.
- Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Gwasanaethau Ieuenctid, Atal Plant, Blynyddoedd Cynnar, GGD a Chwarae, GCA, Camddefnyddio Sylweddau.

- Gwella Ysgolion, Ymgysylltu a Dysgu, Cynhwysiant/ADY, Adnoddau a Chynllunio, GEMS, Gwasanaeth Cerdd.

**1.1 Cydymffurfio**

1.1.1 I gydymffurfio â'r ddyletswydd hon, rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd ystyried cydnerthedd ecosystemau, yn enwedig yr agweddau canlynol:-

- Yr amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt;
- Y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt;
- Maint ecosystemau;
- Cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad);
- Addasrwydd ecosystemau.

1.1.2 Ar ben hynny, er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), mae'n rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd hefyd roi sylw i'r canlynol:-

- Rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau pwysig iawn o ran cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru, a gyhoeddwyd o dan Adran 7 o'r un Ddeddf;
- Yr adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol ('Adroddiad SoNaR') a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru o dan Adran 8; ac,
- Unrhyw ddatganiad ardal a gyhoeddwyd o dan Adran 11, sef Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru yn yr achos hwn.

1.1.3 Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau hyn, rhaid i bob Corff Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n esbonio sut mae'n bwriadu cyflawni'r dyletswyddau hyn, a chyhoeddi adroddiad bob tair blynedd ar yr hyn y mae wedi'i gyflawni, ynghyd ag adolygiad o'r cynllun hwnnw.

**1.2 Adran 7 - Rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau pwysig iawn o ran cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru.**

1.2.1 Mae'r adran hon yn disodli'r ddyletswydd yn adran 42 o Ddeddf NERC 2006. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi, yn adolygu ac yn diwygio rhestrau o organebau byw a mathau o gynefinoedd yng Nghymru, a ystyrir ganddynt yn allweddol bwysig i gynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru.

1.2.2 Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella'r organebau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd wedi'u cynnwys ar unrhyw restr a gyhoeddir o dan yr adran hon, ac annog eraill i gymryd y camau hynny hefyd. Daeth Rhan 1 o'r Ddeddf, gan gynnwys Adrannau 6 a 7, i rym ar 21 Mai 2016. Mae llawer o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sydd wedi'u cynnwys ar y rhestrau hyn i'w cael yng Nghasnewydd.

Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru - Adran 7 (bioamrywiaethcymru.org.uk)

**1.3 Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol ('Adroddiad SoNaR') a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru**

1.3.1 Dyma'r ail Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR), fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Amgylchedd Cymru 2016. Yn 2016, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yr SoNaRR cyntaf wrth inni ddechrau datblygu dealltwriaeth o oblygiadau Deddf yr Amgylchedd. Ers hynny, mae'r polisi adnoddau naturiol cyntaf wedi cael ei gyhoeddi, ynghyd â'r Datganiadau Ardal, mae'r byd wedi cydnabod yr argyfwng o'n blaenau o ran natur a'r hinsawdd, ac mae pandemig Covid-19 wedi creu ffocws newydd ar lesiant. Dyna'r cyd-destun wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn. Mae SoNaRR2020 yn adeiladu ar nifer o asesiadau Cymru, y DU a byd-eang o statws o thueddiadau adnoddau naturiol. Mae'n edrych ar y risgiau y mae'r tueddiadau hynny'n eu hachosi i'n hecosystemau ac i lesiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd hirdymor Cymru, mewn termau a ddiffinnir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

1.3.2 Mae SoNaRR2020 yn cynnwys y ffocws traddodiadol ar reoli adnoddau naturiol o fewn yr wyth ecosystem eang. Y mae hefyd yn cynnig dull trawsnewidiol gan ddefnyddio meysydd ecosystem, economaidd a chymdeithasol fel trosolion i ailddylunio ein cymdeithas a'n heconomi. Mae'n nodi tri maes i'w trawsnewid: y systemau bwyd, ynni a thrafnidiaeth. Mae Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd byd-eang ac er mwyn gwella'r amgylchedd naturiol. Fodd bynnag, mae llawer i'w wneud o hyd; Nid yw Cymru eto'n cyrraedd y pedwar nod hirdymor ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, ac mae'n hollbwysig bod cyrraedd y nodau hyn wrth wraidd penderfyniadau polisi yn y dyfodol. Mae SoNaRR2020 yn nodi amrywiaeth o gyfleoedd i weithredu er mwyn symud tuag at ddyfodol cynaliadwy, a gobeithir y bydd yn gweithredu fel catalydd ar gyfer newid er gwell, ac adferiad gwyrdd ledled Cymru.

1.3.3 Mae'r adroddiad yn esbonio sut mae llesiant pobl a'r blaned wedi'u cydblethu, gan nodi sut y gallai Cymru sicrhau newid amgylcheddol drwy drawsnewid y systemau a ddefnyddir gan bob un ohonom i gefnogi ein ffyrdd o fyw. Mae'n awgrymu y gallai ailddylunio'r systemau ynni, trafnidiaeth a bwyd helpu cymdeithas i fyw o fewn ei chapasiti amgylcheddol a mynd i'r afael â'r pwysau sy'n achosi'r argyfyngau natur a hinsawdd.

1.3.4 Drwy ailasesu'r camau gweithredu unigol a gymerwn, sicrhau mai ymddygiad er budd yr amgylchedd yw'r dewis hawsaf, a thrwy fanteisio ar gyfleoedd i newid systemau drwy ddatblygu polisi, mae SoNaRR2020 y cynnig cyfle gwirioneddol i newid.

1.3.5 Gallai'r newidiadau hyn gynnwys:

- Symud tuag at ynni carbon isel ac adnewyddadwy
- Ailddylunio'r system drafnidiaeth yn ei chyfanrwydd, yn seiliedig ar opsiynau cynaliadwy
- Lleihau gwastraff bwyd
- Hyrwyddo arferion amaethyddol ac amaeth-ecolegol sy'n gweithio gyda natur
- Dylunio a chynllunio ardaloedd trefol yn well, ee drwy gysylltu mannau gwyrdd
- Neilltuo mwy o le ar gyfer natur

## 1.4 Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru

1.4.1 Mae'r Datganiad Ardal hwn, sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), yn cynnwys ALlau Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Caerffili, Torfaen a Chasnewydd. Y mae wedi'i seilio ar yr ecosystemau eang y yr ardal hon, fel y'u hamlygir yng Nghynllun Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol 2040, sef:-

- Gwastadeddau Gwent
- Tir Amaethyddol Canol Sir Fynwy
- Ardal drefol Casnewydd
- Bannau Brycheiniog a'r Mynydd Du
- Coed Gwent a Dyffryn Gwy
- Cymoedd dwyreiniol De Cymru

1.4.2 Mae'r Datganiad wedi'i drefnu o amgylch pedair thema:-

- **Cysylltu Ein Tirweddau**

Mae a wnelo'r thema hon â chanfod cyfleoedd lleol i safleoedd gwarchodedig ac amgylcheddau naturiol/adeiledig gyfrannu at gydnerthedd rhwydweithiau ehangach o gynefinoedd â blaenoriaeth yn y rhanbarth. Dylai'r cyfleoedd hyn i wella cydnerthedd ecosystemau gefnogi cysylltedd ecolegol rhwng safleoedd, ar draws ffiniau, ac ar raddfa'r dirwedd.

- **Gwent yn Barod am yr Hinsawdd**

Mae a wnelo'r thema hon â chanfod cyd-ymyriadau a chyfleoedd ar raddfa'r dirwedd ac ar raddfa ranbarthol i ymaddasu i'r hinsawdd a chymryd camau lliniarol sy'n gwella cydnerthedd yr ecosystem a'r gymuned leol.

- **Iach, Egnïol a Chysylltiedig**

Mae a wnelo'r thema hon â chanfod cyfleoedd a chyd-ymyriadau sy'n gwarchod ac yn gwella iechyd a llesiant; cysylltu pobl, cymunedau a darpariaeth gwasanaeth â natur er budd pobl a'r amgylchedd.

- **Ffyrdd o Weithio**

Mae a wnelo'r thema hon â nodi manteision cydweithredu rhanbarthol strategol a nodi'r hyn y mae angen inni ei wneud unwaith, yn dda, ar raddfa ranbarthol er mwyn cynyddu darpariaeth leol hyd yr eithaf. Mae'r thema strategol hon yn ychwanegu gwerth at y modd y caiff ein hadnoddau naturiol eu rheoli'n gydweithredol, gan wneud y mwyaf o'r budd y maent yn eu cynnig.

**1.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**

1.5.1 Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn Gorff Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, felly mae'n ddyletswydd arno i osod a chyhoeddi amcanion i sicrhau ei fod yn cyfrannu hyd yr eithaf at gyflawni'r saith nod llesiant.

1.5.2 Dyma'r nod sydd yn fwyaf perthnasol i'r adroddiad hwn o blith y nodau hynny:-

**ymru Gydnerth: Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag cosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac colegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft y newid yn yr hinsawdd).**

1.5.3 Bydd y blaengynllun a'r adroddiad teirblynyddol sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cyfrannu at gyflawni unrhyw amcanion a osodir gan Gyngor Dinas Casnewydd yn gysylltiedig â'r nod hwnnw.

1.5.4 Dyma Amcanion Llesiant Cyngor Dinas Casnewydd:

- Gwella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth
- Hyrwyddo adfywiad a thwf economaidd gan warchod yr amgylchedd ar yr un pryd
- Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn
- Adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy

1.5.5 Gall cynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau gyfrannu at yr holl amcanion hyn, ond mae'r elfen '...*gan warchod yr amgylchedd'* yn fwyaf perthnasol i'r cynllun dyletswydd Adran 6 presennol.

## 1.6 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

1.6.1 Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd yn Un, yn ogystal âBGC Gwent. Mae'n rhaid i bob BGC greu cynllun llesiant, sy'n nodi ei amcanion ac yn esbonio sut y gall yr amcanion hynny gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

1.6.2 Mae'r pum hen BGC ar draws Gwent, gan gynnwys Casnewydd yn Un, a oedd yn gweithredu ar ardal awdurdod lleol bellach yn 'Grwpiau Darparu Lleol' i BGC Gwent. Prif dasgau Casnewydd yn Un yw:

- Parhau i gyflawni ac adrodd ar Gynllun Llesiant Lleol cyfredol Casnewydd hyd fis Ebrill 2023.
- Cyflawni blaenoriaethau lleol yng Nghynllun Llesiant nesaf Gwent, a chyfrannu at brosiectau rhanbarthol.
- Cyflwyno adroddiadau diweddaru i BGC Gwent a chyfrannu at yr adroddiad blynyddol.
- Adroddiad i Bwyllgorau Craffu lleol a rhanbarthol.

1.6.3 Mae Casnewydd yn Un wedi cytuno ar ei swyddogaethau ychwanegol, sef:

- Datblygu a chyflwyno gweithgarwch yng Nghasnewydd a fyddai’n elwa ar ymagwedd partneriaeth gref.
- Derbyn adroddiadau gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol statudol Casnewydd, "Casnewydd Ddiogelach", a goleuo a chefnogi gwaith y Bartneriaeth honno.

1.6.4 Mae BGC Gwent yn dod â chyrff cyhoeddus ynghyd i weithio er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Gwent. O dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, maent yn gyfrifol am oruchwylio datblygiad Cynllun Llesiant Lleol newydd sy'n cynnig gweledigaeth hirdymor ar gyfer yr ardal.

1.6.5 Mae gan y bwrdd wyth aelod-sefydliad statudol sy'n gyfrifol am gyflawni eu dyletswyddau llesiant o dan y Ddeddf, gan gynnwys y pum awdurdod lleol ledled Gwent; Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan; Cyfoeth Naturiol Cymru; a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

1.6.6 Gall y BGC hefyd wahodd cyrff eraill sy'n rhannu eu nodau ac a all helpu i gyflawni'r Cynllun Llesiant Lleol. Dyma aelodau eraill BGC Gwent: CMGG; Heddlu Gwent; Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol; CHTh ar gyfer Gwent; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Tai Calon (yn cynrychioli LCCiaid); Cynghrair Gwirfoddol Torfaen; Prifysgol De Cymru; a Gweinidogion Cymru.

1.6.7 Diddymwyd y pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngwent ar 1 Hydref 2021, er mwyn ffurfio BGC Gwent. Mae'r Cynlluniau Llesiant presennol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yn parhau'n weithredol hyd fis Mai 2023, gyda Grwpiau Cyflawni lleol yn sicrhau bod y cynlluniau hyn yn parhau i gael eu cyflawni.

1.6.8 Cyhoeddwyd y cynllun llesiant lleol pum mlynedd ar 3 Mai 2018 ac mae'n nodi blaenoriaethau a chamau gweithredu'r hen BGC hyd 2023 i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Casnewydd. Mae'r Cynllun yn gosod amcanion, blaenoriaethau a chamau llesiant llesol y mae'r bwrdd yn cynnig eu gweithredu er mwyn cyflawni'r amcanion, a dyma brif gynllun gwaith a ffocws Casnewydd yn Un.

1.6.9 Dyma Adroddiad Blynyddol diweddaraf (2021-2022) Cynllun Llesiant Casnewydd:- CYNLLUN LLESIANT CASNEWYDD 2018-23 - Adroddiad Blynyddol 2021-22 (office.com)

## 1.7 Proses Cynllun Corfforaethol Cyngor Dinas Casnewydd

1.7.1 Mae ffrâm amser yr Adroddiad presennol yn cynnwys dau gyfnod yn y Cynllun Corfforaethol, 2017-22 a 2022-27, ac mae'r olaf ar ffurf drafft ar hyn o bryd. I ryw raddau, mae'r ddau gynllun yn adlewyrchu'r ddyletswydd bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd a'r Nod 'Cymru Gydnerth' o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod nod gwirioneddol 'Cymru Gydnerth" o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fel y nodir uchod.

1.7.2 Mae'r Nod hwn yn cydnabod mai amgylchedd naturiol iach, a'r gwasanaethau ecosystem sy'n deillio o'r amgylchedd hwnnw, yw conglfaen cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol, ac mai'r bwriad yw harneisio'r gwasanaethau ecosystem hynny i ddarparu'r cydnerthedd hwnnw, yn hytrach na mynd ati'n unig sicrhau cydnerthedd cymdeithasol ac economaidd yn absenoldeb cydnerthedd ecolegol.

## 1.8 Cynllun Corfforaethol 2017-2022

1.8.1 Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar bedair thema, Cymunedau Cydnerth yn arwain at Ddinas Ffyniannus, a Phobl Uchelgeisiol yn arwain at Gyngor wedi'i Foderneiddio. Mae'r camau gweithredu er mwyn gwireddu'r themâu hyn ar ffurf cyfres o 20 Ymrwymiad. Mae cyfeiriad at y ddyletswydd i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wedi'i gyfyngu i un o'r camau o dan Amcan Llesiant 2 – 'Hybu adfywiad a thwf economaidd gan warchod yr amgylchedd ar yr un pryd', lle ceir dyletswydd i weithio

gyda chymunedau ac ysgolion ar amrywiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â chefn gwlad, bioamrywiaeth ac ailgylchu.

**1.9 Cynllun Corfforaethol Drafft 2022 – 27**

1.9.1 Mae Cynllun Corfforaethol Drafft 2022-27 yn cynnwys pedwar amcan llesiant drafft y rhoddir blaenoriaeth iddynt fel ffocws dros y pum mlynedd nesaf, ac a fydd yn cefnogi gweledigaeth dymor hwy i Gasnewydd:

- Mae Casnewydd yn ddinas sy'n ffynnu ac yn tyfu, sy'n cynnig addysg ardderchog ac yn anelu i gynnig cyfleoedd i bawb.
- Mae Casnewydd yn ddinas sy’n ceisio gwarchod a gwella ein hamgylchedd gan leihau ein hôl troed carbon a pharatoi am ddyfodol cynaliadwy a digidol.
- Mae Casnewydd yn ddinas gefnogol lle mae cymunedau a gofal wrth galon yr hyn a wnawn.
- Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn sefydliad cynhwysol sy'n rhoi lle creiddiol i werth cymdeithasol, tegwch a chynaliadwyedd.

1.9.2 Mae un o'r ffyrdd a ddefnyddir i gyflawni'r amcan i warchod a gwella ein hamgylchedd wedi'i rhestru, ymhlith eraill, fel '*Diogelu a gwella bioamrywiaeth ac amgylchedd cymunedau trefol a gwledig Casnewydd, gan wella iechyd a llesiant.*', o dan yr adran 'Sut y byddwn yn cyflawni hyn'.

**1.10 Monitro ac Adrodd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol**

1.10.1 Er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd yn erbyn ein hamcanion yn y Cynllun Corfforaethol, byddwn yn gwneud gwaith monitro ac adrodd rheolaidd a gefnogir drwy Fframwaith Cynllunio, Perfformiad a Rheoli Risg y Cyngor. Bydd hyn yn cael ei ymwreiddio ar bob lefel drwy'r sefydliad i sicrhau ein bod yn hybu a thynnu sylw at yr hyn rydym yn ei wneud yn dda ac yn cymryd camau lle mae angen inni wella. Dyma enghreifftiau o'n gwaith monitro ac adrodd:-

- Adroddiad Llesiant a Hunanasesu Corfforaethol Blynyddol. Bob blwyddyn byddwn yn cyhoeddi ein Hadroddiad Llesiant a Hunanasesu Corfforaethol Blynyddol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o gynnydd y Cyngor yn erbyn Amcanion y Cynllun Corfforaethol, ein perfformiad a'r gwelliannau y byddwn yn eu gwneud yn y blynyddoedd i ddod. Byddwn hefyd yn cynnal adolygiad annibynnol gan gymheiriaid. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd a chadernid y trefniadau llywodraethu a pherfformiad sydd ar waith gennym i gyflawni ein Hamcanion Llesiant a gwasanaethau’r cyngor.

- Cynllun Trawsnewid. Bydd y Cynllun Trawsnewid hwn a'r adroddiadau ar hynny'n goruchwylio cyflawni'r rhaglenni a'r prosiectau allweddol rydym wedi'u nodi yn y Cynllun Corfforaethol hwn, a fydd yn newid y modd rydym yn darparu ein gwasanaethau ac yn gwella cymunedau Casnewydd.

- Cynlluniau Gwasanaeth. Bydd gan 11 o feysydd gwasanaeth y Cyngor gynllun gwasanaeth a fydd yn amlinellu sut y byddant yn cyfrannu ac yn cyflawni'r Cynllun Corfforaethol, ac yn gwella'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Bydd pob maes gwasanaeth yn rhoi diweddariad ar gynnydd eu

cynlluniau gwasanaeth i bwyllgorau craffu ar berfformiad y Cyngor bob chwe mis (ar ganol ac ar ddiwedd y flwyddyn).

- Strategaeth a Threfniadau Monitro ac Adrodd Statudol. Mae gan y Cyngor amryw o gynlluniau strategol a gofynion statudol y mae'n adrodd amdanynt yn flynyddol. Mae'r rhain yn cynnwys Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Strategaeth y Gymraeg, Cynllun Newid Hinsawdd, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, Strategaeth Ddigidol. Cyflwynir adroddiadau ar berfformiad yn erbyn y strategaethau a'r gofynion strategol hyn i gyfarfodydd craffu, rheoleiddio a chabinet y Cyngor drwy ein proses ddemocrataidd.

- Rheoli Perfformiad Staff. Mae staff y Cyngor yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd perfformiad a llesiant staff rheolaidd ar ffurf Sgyrsiau. Bydd sgwrsio â'n staff am eu perfformiad a'u hiechyd a'u llesiant yn galluogi ein staff i gyfrannu'n effeithiol at gyflawni'r Cynllun hwn, ac yn sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau gorau posib i'n trigolion, i fusnesau ac i rai sy'n ymweld â Chasnewydd.

## 2.0 Uchafbwyntiau, Canlyniadau Allweddol a Phroblemau

2.0.1 Dros y cyfnod adrodd mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cydweithio â phartneriaid lleol a rhanbarthol ar fentrau fel Gwent Fwyaf Gydnerth, y Bartneriaeth Natur Leol, Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Mae cyllid grant yn gysylltiedig â'r cydweithredu hwn wedi galluogi cyfres o brosiectau llwyddiannus, a nodir yn yr Adroddiad ar Weithredu isod.

2.0.2 Yn fwy diweddar, mae cydnabyddiaeth o’r berthynas rhwng bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, a lliniaru ac ymaddasu i’r newid hinsawdd, wedi cael ei chryfhau yn sgil Cynllun Newid Hinsawdd Sefydliadol Cyngor Dinas Casnewydd 2022-27.

2.0.3 Mae'r Tîm Cefn Gwlad a Chadwraeth wedi datblygu dros gyfnod y cynllun, gan ganiatáu i fwy o brosiectau gael eu datblygu a mwy o gydweithio â thimau eraill o fewn y Cyngor. Mae hyn ei dro wedi creu mwy o gapasiti i allu manteisio ar gyfleoedd a ariennir drwy grant, ac i barhau a'n gwaith yn gysylltiedig â bioamrywiaeth ac ysgolion. Mae gweithio gyda gwirfoddolwyr, grwpiau gwirfoddol a phartneriaid wedi ein galluogi i drosoli mwy o gapasiti i gyflawni ein hamcanion a chyflawni ein rhaglen waith.

2.0.4 Ym mlwyddyn olaf y cyfnod adrodd yn unig, cafwyd cyngor ynghylch sut y gellir osgoi, lliniaru a gwneud iawn am effeithiau ar fioamrywiaeth ar gyfer dros 300 o geisiadau cynllunio. Mae'r gofynion i ystyried effeithiau ar gydnerthedd ecosystemau, a hefyd i geisio gwelliannau neu fudd bioamrywiaeth net, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, wedi cael eu hyrwyddo yn rhan o'r cyngor hwn.



**3.0 Adroddiad ar Weithredu**

3.0.1 Mae'r Adroddiad ar Weithredu wedi'i drefnu'n unol â'r Chwe Amcan sy'n gyffredin i'r Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 a phroses y Cynllun Gweithredu Adfer Natur.

**3.1 Amcan 1: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.**

3.1.1 Mae ymateb Cyngor Dinas Casnewydd i Ddyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 wedi'i arwain gan y Tîm Cefn Gwlad a Chadwraeth, o fewn adran yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd yng Nghyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Mae'r Tîm Cefn Gwlad a Chadwraeth yn cynnwys Swyddog Ecoleg (1.0 CALl), Swyddog Bioamrywiaeth ac Addysg / Cydgysylltydd Cefnogi Partneriaethau Natur Lleol, a Swyddog Prosiectau Bioamrywiaeth Dros Dro.

3.1.2 Yn ogystal â hynny, mae tri swyddog yn rhoi cyngor ar Goed a Choetiroedd, ynghyd â Phensaer Tirwedd, Swyddog Datblygu Mynediad Hawliau Tramwy, a chyfres o Wardeiniaid Cefn Gwlad.

3.1.3 Nodir manylion yr hyn y mae'r cydweithwyr hyn wedi'i gyflawni o dan benawdau Amcanion pellach isod, ond yn y pwyntiau canlynol edrychir ar y modd y mae bioamrywiaeth wedi'i hymwreiddio o fewn y sefydliad.

**3.2 Ymwreiddio camau gweithredu bioamrywiaeth ar draws swyddogaethau Cyngor Dinas Casnewydd - Yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd.**

3.2.1 Mae'r Tîm Cefn Gwlad a Chadwraeth yn gweithio'n effeithlon ac effeithiol gyda thimau eraill yn adran yr Amgylchedd a Hamdden, gan gynnwys y Tîm Cynnal a Chadw Tir, y Tîm Parciau a Hamdden, a'r Tîm Profedigaeth sy'n rheoli mynwentydd y Ddinas.

3.2.2 Drwy hyn, mae'r gofyniad i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn cael ei gyfleu wrth y staff sy'n gyfrifol am reoli parciau, gerddi, mannau agored cyhoeddus, Gwarchodfeydd Natur Lleol a choed Cyngor Dinas Casnewydd. Er enghraifft, mae'r timau hyn o fewn adran yr Amgylchedd a Hamdden wedi cydweithredu ar fentrau fel No Mow May a Nid yw Natur yn Daclus, sy'n anelu i wella ardaloedd glaswelltog i beillwyr fel pryfed.

3.2.3 Mae'r timau hyn hefyd yn ysgogi gweithredu ymarferol er budd bioamrywiaeth drwy gyfres o grwpiau gwirfoddol, sy'n cynyddu'n sylweddol eu capasiti i reoli a gwella seilwaith gwyrdd yn y Ddinas.

3.2.4 Mae Cynllun Newid Hinsawdd 2022-27 wedi cael ei gynhyrchu, a'r Swyddog Ecoleg ac aelodau eraill o'r Tîm Cefn Gwlad a Chadwraeth wedi gwneud sylwadau ar ddrafftiau ymgynghori o'r ddogfen. Mae'r thema 'Ein Ti'r yn y Cynllun Newid Hinsawdd yn cynnwys cyfres o flaenoriaethau, fel a ganlyn:-

1. Cydnerthedd Ecosystemau. Adfer, creu a chysylltu bioamrywiaeth a chynefinoedd mewn modd cynaliadwy drwy wella tir sy'n eiddo i'r Cyngor a thir y cyhoedd.

2. Coed a Choetir. Gwella iechyd dynol, ansawdd yr amgylchedd, a chyfraddau lleihau a dal carbon drwy reoli a chynyddu coed a choetir Casnewydd mewn modd cynaliadwy.

3. Mannau Gwyrdd Trefol. Cynyddu seilwaith gwyrdd mewn ar dir trefol/y cyhoedd i leihau anghydraddoldebau amgylcheddol, er mwyn sicrhau'r buddion lluosog canlynol: adfer natur, iechyd a llesiant dynol, ymaddasu i'r hinsawdd, oeri a lliniaru llifogydd, lleihau carbon ac aer glân.

4. Tir ar Brydles sy'n Eiddo i'r Cyngor Cefnogi adferiad natur gan leihau allyriadau carbon o dir ffermio ac unrhyw dir arall ar brydles sy'n eiddo i'r Cyngor.

3.2.5 Mae'r Swyddog Ecoleg wedi'i gynrychioli ar y Weithgor y Thema 'Ein Tir', a thrwy gyfrannu cyngor ecolegol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn, bydd llawer o'r camau a gynigir yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.




## 3.3 Adfywio a Datblygu Economaidd

3.3.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol 2011 – 26 yn cynnwys polisïau sy'n anelu i ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol, er enghraifft:

**GP5 Yr Amgylchedd Naturiol**

Caniateir datblygiadau os yw'r canlynol yn berthnasol:

i) Cynllunnir a rheolir y cynigion fel eu bod yn diogelu ac yn annog bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol, gan gynnwys drwy ymgorffori nodweddion newydd ar y safle neu oddi arno i ddatblygu cynlluniau bioamrywiaeth Cymru, y DU neu Gasnewydd;

ii) Mae'r cynigion yn dangos sut maent yn osgoi neu'n lliniaru ac yn gwneud yn iawn am effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth gan sicrhau nad oes effeithiau andwyol sylweddol ar ardaloedd o ddiddordeb cadwraeth natur (rhyngwladol, Ewropeaidd, Cenedlaethol, Adran 4232 Cymru a chynefinoedd a rhywogaethau lleol a ddiogelir) a diogelu nodweddion o bwysigrwydd ecolegol;

iii) Ni fydd y cynnig yn cael effaith annerbyniol ar ansawdd dŵr;

iv) Ni ddylai'r cynnig arwain at golli neu leihau ansawdd tir amaeth o safon uchel (graddau 1, 2 a 3a);

v) Ni fyddai effaith annerbyniol ar ansawdd y dirwedd;

vi) Mae’r cynnig yn cynnwys cynllun tirwedd priodol sy’n gwella’r safle a’r cyd-destun ehangach gan gynnwys y seilwaith gwyrdd a rhwydweithiau bioamrywiaeth;

vii) Mae’r cynnig yn cynnwys gwaith plannu neu gadw coed priodol ac nid yw’n arwain at golled neu ddifrod annerbyniol i goed, coetir neu wrychoedd sydd o werth bywyd gwyllt neu amwynder.

**CE3 Mannau a Choridorau Amgylcheddol**
Yn yr ardaloedd trefol a phentref ac yn y cyffiniau, ac ardaloedd a nodir i’w datblygu’n gynhwysfawr, caiff safleoedd sydd â phwysigrwydd presennol o ran eu nodweddion gweledol, fel cynefinoedd bywyd gwyllt neu at ddibenion hamdden neu amwynder, eu diogelu fel “mannau a choridorau amgylcheddol”. Ni chaniateir datblygu yn y mannau hyn onid yn y sefyllfaoedd canlynol:

i) Caiff nodweddion amgylcheddol presennol neu bosibl y safle eu gwella neu eu hategu;

ii) Nad oes effaith andwyol ar fudd cadwraeth natur rhyngwladol, Ewropeaidd, cenedlaethol, rhanbarthol neu leol;

iii) Nid oes colled, heb wneud yn iawn yn briodol amdani, o ran tir hamdden, man agored neu adnodd amwynder i’r gymuned uniongyrchol oni ellir dangos bod gormodedd o ddarpariaeth neu y gellir gwella cyfleusterau drwy ddatblygu rhan fechan o’r safle.

Anogir cynigion i wella darpariaeth man amgylcheddol bresennol lle y bo’n ymarferol. ceisir darpariaeth ychwanegol mewn ardaloedd lle nodwyd diffyg.

**CE8 Safleoedd a Ddynodir yn Lleol**

Caniateir cynigion sy’n effeithio ar safleoedd a ddynodir yn lleol:

i) Os na chollid yn gyffredinol yr adnodd cadwraeth natur y dynodwyd yn safle o’i herwydd;

ii) Os na fyddai unrhyw effaith andwyol sylweddol ar ddiddordeb daearegol y safle;

iii) Os gellir cyflawni mesurau lliniaru neu wneud yn iawn am golled.

3.3.2 Gweithredir y polisïau hyn drwy'r cyngor a roddir gan y Swyddog Ecoleg i'r Swyddog Achos mewn perthynas ag unrhyw ymholiad cyn ymgeisio/cais sydd dan sylw. Fodd bynnag, mae'r Swyddogion Cynllunio yng Nghyngor Dinas Casnewydd ym ymwybodol o'r polisi a'r ddeddfwriaeth sy'n gwarchod ein rhywogaethau, ein cynefinoedd a'n hecosystemau.

3.3.3 Rhoddir canllawiau parhaus ar weithredu'r polisïau a restrir uchod yn y Canllawiau Cynllunio Atodol Bywyd Gwyllt a Datblygu 2015, a rhoddir canllawiau ar bolisïau sy'n ymwneud â gwarchod coed yn CCA Coed, Coetir, Gwrychoedd a Safleoedd Datblygu 2017.

3.3.4 Mae CDLl Newydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, ac mae'r Tîm Cefn Gwlad a Chadwraeth wedi bod yn rhan o gam Asesu Safleoedd Ymgeisiol y broses hon.

## 3.4 Gwasanaethau'r Ddinas

3.4.1 Mae Gwasanaethau'r Ddinas yn cynnwys y Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB), ac mewn perthynas â cheisiadau SAB, mae'r Swyddog Ecoleg yn rhoi cyngor, yn bennaf mewn perthynas â gweithredu'r chwe Safon, ac un ohonynt yw bod bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a'i gwella fel rhan o unrhyw System Ddraenio Gynaliadwy.

3.4.2 Mae'r gwasanaethau priffyrdd hefyd wedi cymryd rhan mewn cynlluniau i dorri gwair yn llai aml er mwyn hyrwyddo amrywiaeth flodeuegol a pheillwyr yn sgil hynny.

## 3.5 Addysg

3.5.1 Drwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth, mae rhai ysgolion yng Nghasnewydd yn derbyn cymorth ymarferol a gweithgareddau addysgol wedi'u dylunio i wella bioamrywiaeth tir yr ysgol ac i addysgu plant ynghylch pwysigrwydd ein hamgylchedd naturiol. Mae llyfryn Gwasanaethau i Ysgolion ar gael yma Llyfryn Gwasanaethau Strydlun i Ysgolion (newport.gov.uk).

3.5.2 **Bioamrywiaeth mewn Ysgolion**. Mae dros 80% o'r ysgolion yng Nghymru yn cymryd rhan yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth Bioamrywiaeth mewn Ysgolion (CLG) ac yn derbyn cyngor a chymorth i ddatblygu tiroedd ysgol, gan greu ardaloedd i loÿnnod byw, plannu coed, cloddiau a pherllannau, gosod ystafelloedd dosbarth awyr agored a chreu rhandiroedd.

3.5.3 **Eco-ysgolion**. Gall y Prosiect Bioamrywiaeth mewn Ysgolion helpu ysgolion gyda'u rhaglen eco-ysgolion a mentrau ysgolion iach, yn ogystal â helpu i ddatblygu amgylchedd awyr agored ysgogol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, rhwng 3 a 7 oed.

3.5.4 **Gwarchodfa Natur Leol Allt-yr-Ynn**. Mae Gwarchodfa Natur Leol Allt-yr-Ynn yn lle gwych ar gyfer ymweliadau gan grwpiau ysgol. Mae'r Warchodfa ar agor drwy'r dydd bob dydd, ac yn cynnwys cylchoedd o foncyffion i'w defnyddio fel ystafell ddosbarth awyr agored. Mae croeso i ysgolion ddefnyddio'r warchodfa pryd bynnag y dymunant, ar eu pen eu hunain, a gallant drefnu i'w dosbarth ymweld â'r warchodfa gyda'r swyddog bioamrywiaeth mewn ysgolion i gael sesiwn addysg amgylcheddol dywysedig, ddwy awr o hyd. Mae'r gwasanaeth hwn am ddim i'r ysgolion hynny sy'n rhan o'r CLG.



3.5.5 **Ysgol Goedwig.** Mae Ysgol Goedwig yn ddull Sgandinafaidd og gynnal addysg yn yr awyr agored mewn amgylchedd naturiol, lle bydd plant yn dysgu ac yn datblygu sgiliau ysgogol, emosiynol a chymdeithasol. Mae'n rhoi cyfle i blant ddysgu sut i drin risgiau a defnyddio eu cymhelliant eu hunain, ac yn gyfle i ddefnyddio offer a chynnau tanau. Yn ddelfrydol, bydd ysgol goedwig yn cael ei chynnal mewn grwpiau bach ac yn rheolaidd. Mae gan lawer o ysgolion Casnewydd Arweinydd Ysgol Goedwig (cymhwyster Lefel 3 Agored Cymru) ac mae 2 o swyddogion y cyngor hefyd yn Arweinwyr Ysgol Goedwig cwbl gymwys sy'n gallu cynnal rhaglenni ysgol goedwig rheolaidd, darparu sesiynau untro ar ddefnyddio erfyn neu dân a chynorthwyo arweinwyr ysgol lle bo angen. Codir £150 y diwrnod am sesiynau ysgol goedwig, fesul aelod o staff.

### 3.6 Pobl, Polisi a Thrawsnewid

3.6.1 Codwyd ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd Adran 6 a gofynion y ddyletswydd honno mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol sydd ar ddod drwy'r Partner Busnes Perfformiad ac Ymchwil. Mae'r

Cynllun Corfforaethol drafft yn cynnwys yr amcan *'2. Mae Casnewydd yn ddinas sy'n ceisio gwarchod a gwella ein hamgylchedd gan leihau ein hôl troed carbon a pharatoi am ddyfodol cynaliadwy a digidol.'* Un o'r ffyrdd a ddefnyddir i gyflawni'r amcan i warchod a gwella ein hamgylchedd, ymhlith eraill, yw '*Diogelu a gwella bioamrywiaeth ac amgylchedd cymunedau trefol a gwledig Casnewydd, gan wella iechyd a llesiant*.'

3.6.1 Mae'r Tîm Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu yn parhau i gefnogi tudalennau gwe bioamrywiaeth a chyhoeddi datganiadau i'r wasg pan geir digwyddiadau nodedig yn gysylltiedig â'r amgylchedd.

**3.7 Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn a gwella'r rheolaeth arnynt.**

3.7.1 Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cymryd rhan mewn nifer o brosiectau i ddiogelu rhywogaethau a warchodir a safleoedd dynodedig, ac i wella'r rheolaeth ar y cynefinoedd sy'n eu cynnal. Dyma rai enghreifftiau o'r camau a gymerwyd.

**3.8 Gwesty Gwenoliaid y Glennydd**

3.8.1 Yn ystod y llifogydd ym mis Chwefror 2020, effeithiwyd yn ddrwg ar ran o lan Afon Ebwy sy'n mynd drwy Hen Gwrs Golff Parc Tredegar (sy'n eiddo i'r Cygor erbyn hyn). Tywod oedd ar un ochr i'r lan, ac roedd yn gynefin i nifer fawr o wenoliaid y glennydd. Pan dorrodd yr afon ei glannau, cafodd y tywod ar y lan honno ei olchi i ffwrdd. Difrododd hyn gynefin naturiol yr ardal, ac nid yw gwenoliaid y glennydd yn gallu nythu yma bellach.

3.8.2 Trefnodd Cyngor Dinas Casnewydd i adeiladu strwythur newydd pwrpasol Gwesty Gwenoliaid y Glennydd, i gartrefu hyd at 50 o barau o Wenoliaid y Glennydd sy'n nythu yn yr ardal. Rydym wedi gweithio gyda'n Peiriannydd Strwythurol, ein Hecolegydd, Cymdeithas Adaryddol Gwent a Chyfoeth Naturiol Cymru dros y 18 mis diwethaf i gael hyd i'r lleoliad gorau a'r dyluniad gorau ar gyfer y Gwesty. Dechreuodd y gwaith yn nhymor yr hydref 2021 ac fe'i cwblhawyd ym mis Mai 2022.

3.8.3 Mae'r Gwesty wedi'i wneud o goncrit ac mae ganddo do dur, wedi'i orffen â lliw naturiol gyda phaent gweadog i gyd-fynd â'r tirlun. Ar ôl adeiladu'r gwesty, gwnaethom hefyd adeiladu ffens gadarn o amgylch y gwesty i ddiogelu'r adar. Mae gan y ffens hon blanhigion newydd wrth ei hymyl i'w chuddio o'r golwg ac i helpu'r ffens i asio â'r amgylchedd hefyd.

3.8.4 Talwyd cost y gwesty hwn drwy grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, felly ni cheir unrhyw gost i'r Cyngor na'r trethdalwr, ond bydd y buddion ecolegol yn amhrisiadwy pan fydd gwenoliaid y glennydd yn dychwelyd i'r ardal.

Gwesty Gwenoliaid y Glennydd yn ei leoliad:-



Y tu mewn i Westy Gwenoliaid y Glennydd, lle ceir blychau nythu:-



Bwrdd Dehongli ar gyfer Gwesty Gwenoliaid y Glennydd:-



## 3.9 Adolygiad o Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur Casnewydd (SINCs).

3.9.1 Mae adolygiad o SINCs yn mynd rhagddo, fel bod y gyfres o safleoedd yn gyfredol ac yn ffynhonnell wybodaeth i'r CDLl newydd, ac yn rhannol er mwyn sicrhau bod eu nodweddion a'u ffiniau'n fanwl gywir ac wedi'u rheoli'n gadarnhaol.

3.9.2 Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent (YBGG) wedi edrych ar ffiniau'r holl SINCs yng Nghasnewydd o gymharu ag awyrluniau i sicrhau eu bod yn dal yn ddilys. Maent hefyd wedi cerdded dros ambell safle, ond heb gynnal arolygon llawn, er mwyn cadarnhau eu gwerth. Mae hyn wedi'i gynnal ar yr 19 o safleoedd canlynol:-

- Coedwig Craig y Perthi
- Cae Betws
- Caeau'r Gamlas
- SINC Caeau'r Gamlas yn gyfagos â Chamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu
- Gorllewin y Betws
- Gorllewin Caer Chwilgrug
- Cae Bumble, Lôn Bowden
- Coed y Mynydd
- Comin Llandifog
- A48 (Cwrt Llandifog)
- Cae Foresters Oaks
- Glaswelltir Melin Llandifog
- Caeau Coed y Caerau - Y Gogledd a'r De
- Craig Kemeys
- Glaswelltir Delbury
- Caeau Underwood
- Stocks Wood (Y Dwyrain a'r Gorllewin)
- Coedwig Pant yr Eos

**3.10 Amcan 3: Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd.**

3.10.1 Mae prosiectau creu ac adfer cynefinoedd wedi bod yn cael ei cynnal drwy gydol cyfnod y cynllun, yn bennaf ar dir sy'n eiddo i Gyngor Dinas Casnewydd a'i bartneriaid. Mae'r prosiectau canlynol wedi anelu i gyflawni'r amcan hwn.

**3.11 Plannu Coed, gan gynnwys gwneud iawn am goed a gollwyd oherwydd y clefyd coed ynn.**

3.11.1 Gwnaed cryn ymdrech dros y tair blynedd diwethaf i gynnal, adfer a gwella ein coetir, ein coed trefol, ein gwrychoedd a chynefinoedd cysylltiedig. Cydgysylltwyd hyn gan y Swyddog Coed a Choetir, ynghyd â'r Swyddog Coedyddiaeth a'r Cynorthwyydd Coedyddiaeth, mewn partneriaeth â'r Adran Cynnal Tir, yr Adran Parciau a Hamdden, a Swyddog y Bartneriaeth Natur Leol.

3.11.2 Mae llawer o'r gwaith hwn yn anelu i wneud iawn am y coed a gollwyd yn sgil y clefyd coed ynn, sydd wedi effeithio ar lawer o ardaloedd yng Nghasnewydd. Mae'r rhestr isod yn crynhoi nifer y coed, y llwyni a'r gwrychoedd a gafodd eu plannu, neu eu caffael yn barod i'w plannu, dros gyfnod 2019-2022 (cynhwysol).

Tabl 1. Coed a blannwyd yng Nghasnewydd yn ystod y cyfnod adrodd.

| **Grŵp Planhigion** | **Nifer** | **Grŵp Planhigion** | **Nifer** |
|---|---|---|---|
| Masarnen a Sycamorwydden | 438 | Afallen a Choeden Afalau Surion | 500 |
| Castanwydden | 19 | Pyrwydden a Phinwydden | 18 |
| Gwernen | 80 | Planwydden Llundain | 15 |
| Bedwen | 85 | Aethnen | 27 |
| Oestrwydden | 29 | Ceirios | 421 |
| Castanwydden Felys | 67 | Draenen Ddu | 1075 |
| Cwinsydden | 19 | Coeden Ellyg | 47 |
| Cwyros | 153 | Derwen | 300 |
| Collen | 840 | Rhosyn y Cŵn | 350 |
| Draenen Wen | 2089 | Helygen | 55 |
| Pisgwydden | 200 | Ysgawen | 200 |
| Ffawydden | 110 | Cerddinen Wen a Chriafolen | 120 |
| Coeden Gincgo | 10 | Llwyfen | 113 |
| Celynnen | 455 | Eraill | 339 |
| | | **Cyfanswm** | **8174** |

3.11.3 Dyma rai o uchafbwyntiau'r gwaith plannu coed:-

- Rhodfa newydd o goed ym Mharc Tredegar, gyda 70 o goed wedi'u plannu i gynrychioli 70 mlynedd y jiwbilî blatinwm.

- Ysgol Gynradd Ringland, NP19 - 10 coeden
- Ysgol Sant Gabriel, NP19 9PQ - 5 coeden
- Ystâd Celtic Horizons NP10 8UP - 10 coeden
- Barrackswood NP20 5HG - 10 coeden
- Cwm Pilton NP18 3QZ hyd at - 10 coeden
- Parc Beechwood NP19 8AJ - hyd at 10 coeden
- Parc Belle Vue NP20 4FP - hyd at 10 coeden
- Ysgol Bryn Derw NP20 3FP - 5 coeden
- Ysgol Gynradd Glan Wysg NP197HF - 10 coeden
- Parc Glebelands NP19 7HJ - hyd at 10 coeden
- Allt-Yr-Ynn GNL NP20 5DN - hyd at 10 coeden

**3.12 Coed ar gyfer Dinasoedd**

3.12.1 Mae Casnewydd yn swyddogol yn Ddinas Gyfeillgar i Wenyn, wedi'i hachredu gan Lywodraeth Cymru yn 2020. Cynllun achredu i Gymru gyfan yw Caru Gwenyn, ac fe'i ffurfiwyd ar y cyd gan Gyfeilion y Ddaear Cymru a Llywodraeth Cymru yn rhan o'u Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr. Fel Cyngor, rydym wedi bod yn gweithio i wella'r modd yr ydym yn rheoli ardaloedd er budd peillwyr. Sicrhau bod anghenion peillwyr wedi'u cynrychioli mewn cynlluniau, polisi a chanllawiau lleol, a newid y modd rydym yn gweithio i warchod a chynyddu nifer y cynefinoedd o ansawdd i beillwyr.

3.12.2 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi cyflwyno newidiadau i'r drefn torri gwair, wedi ailsefydlu technegau rheoli dolydd mewn mannau agored gwyrdd, ac wedi plannu mwy o blanhigion er budd peillwyr ar draws ardal yr awdurdod lleol. Ein nod yw gwrthdroi'r gostyngiad mewn rhywogaethau peillio ledled Gwent, gan gynyddu cysylltedd bywyd gwyllt a chynnig mynediad i bobl at y natur sydd ar garreg eu drws, lle maen nhw'n byw ac yn gweithio.

3.12.3 Yn rhan o'r fenter hon, mae 55 o goed wedi cael eu plannu mewn ardaloedd sydd ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Ysgol Gynradd Ringland, Ysgol Gynradd Sant Gabriel, Dyffryn, Parc Belle Vue a Barrackswood). Mae hyn nid yn unig yn cynyddu mynediad at natur, ond hefyd yn cynyddu'r brigdwf, ac yn galluogi'r cymunedau i elwa ar y ffrwythau a ddaw o'r coed mewn blynyddoedd i ddod. Ar ben hynny, mae gweddill y coed wedi cael eu plannu'n agos at yr M4 neu at ardaloedd lle ceir lefel uchel o draffig, gan gynyddu'r brigdwf a'r cyfle i ddal carbon, a rhoi hwb i fioamrywiaeth a chynyddu a chysylltu cynefinoedd i beillwyr (Cwm Pilton, Ysgol Gynradd Glan Wysg, Parc Glebelands, Ysgol Bryn Derw, Allt-yr-Ynn, Beechwood a Pharc Belle Vue).

3.12.4 Cafwyd y coed o Blanhigfa Coed Ffrwythau Applewise, Sir Gaerfyrddin (cwmni sy'n arbenigo mewn sbesimenau Cymreig). Bydd y gwaith cynnal ar amserlen 5 mlynedd, ac yn cynnwys gwirio, addasu rhwymau'r coed, trwsio polion, tocio, plannu coed newydd os oes angen a dyfrio am y 2 flynedd gyntaf ar ôl plannu.

3.12.5 Mae grwpiau gwirfoddol presennol a sefydlwyd yn Allt-yr-Ynn, Cwm Pilton, Dyffryn a Barrackswood yn parhau i ymwneud â'r gwaith i reoli'r coed ffrwythau yn y dyfodol, a bydd y coed a blannwyd mewn ysgolion yn cynnig llawer o gyfleoedd dysgu i ddisgyblion am flynyddoedd i ddod.

3.12.6 Cafodd y coed *na* chawsant eu plannu yn yr ysgolion eu plannu ar draws 5 o wahanol Wardiau Cyngor (Allt-yr-Ynn, Malpas, Coedcernyw, Pillgwenlli a Sain Silian) sy'n cynnwys cyfanswm o 36,000 o breswylwyr. Mae gan y pedair ysgol lle plannwyd coed gyfanswm o 1500 o ddisgyblion, sy'n elwa ar y coed bob dydd.

3.12.7 Addysgwyd yr holl wirfoddolwyr ar elfennau sylfaenol plannu coed ffrwythau, yr angen i glirio'r safle, taenu gwellt, gosod polion ac ystyriaethau ynghylch sbesimenau, safle a lleoliad. Cynhaliwyd cyfarfodydd safle a thrafodaethau â grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr, a wnaeth helpu i benderfynu ar y lleoliad plannu, y mathau o goed i'w plannu, a'r trefniadau i'w rheoli yn y dyfodol.

3.12.8 Yn ôl preswylydd a Chadeirydd Grŵp Preswylwyr Sorrel Drive a Harlequin (Barrackswood), Julia Crosbie:-

*"Mae'r coed ffrwythau yn ychwanegiad hyfryd i'n hardal ni. Mae gennym lwyth o fwyar duon ar gael am ddim yn barod, a pherllan fach hefyd! Ffrwythau am ddim i BAWB - gwych! Diolch Trees for Cities!"*

3.12.9 Yn ôl Sue Colwill, Preswylydd a Chadeirydd Grŵp Casglu Sbwriel y Celtic Horizons (Dyffryn/Coedcernyw):-

*"Roedd hi'n wych cael y gymuned i gymryd rhan yn y gwaith o blannu rhywogaethau brodorol yn yr ardal fach werdd werthfawr hon. I'r bobl hŷn roedd yn gyfle i dreulio awr bleserus yn dal i fyny â chymdogion. I'r teuluoedd iau, roedd hi'n wych eu gweld yn cymryd rhan ym myd natur, yn gwneud gweithgaredd cadarnhaol gyda'u plant ifanc! Mae cymunedau fel ein cymuned ni'n cydweithio i gefnogi bioamrywiaeth a'n llesiant meddyliol a chorfforol, felly mae gweithgareddau wedi'u cefnogi fel hyn yn amhrisiadwy inni!"*

3.12.10 Ellie De Lima, Athrawes yn Ysgol Gynradd Sant Gabriel:-

*"Diolch o galon am y coed ffrwythau. Roedd y plant yn disgwyl yn awchus i'w cael a'u plannu! Maen nhw'n methu aros i'w gweld yn blodeuo ac i'r ffrwythau ddechrau tyfu!"*

**3.13 Prosiect Cymunedau Cynaliadwy Gwent Fwyaf Gydnerth 2021/22022 - Prosiect Perllan Gymunedol a Phecyn Bywyd Gwyllt y Rhandiroedd**

3.13.1 Drwy'r Grant Cymunedau Cynaliadwy a dderbyniwyd eleni, bu modd inni gynyddu'r cynefin i beillwyr drwy greu 3 Perllan mewn lleoliadau tyfu cymunedol allweddol yng Nghasnewydd.

**3.14 Y Padog yn y Graig**

3.14.1 Mae'r Padog wedi'i leoli yn ardal Basaleg yng Nghasnewydd, ac yn cael ei ddefnyddio gan y gymuned ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd amrywiol, gan gynnwys picnic cymunedol canol haf a digwyddiad rhostio mochyn ar ddiwedd yr haf. Mae'r cae 1 hectar yn gyfochr â'r A467 ac yn cynnwys gwrych mawr sefydledig. Roedd yr 20 o goed ffrwythau cymysg yn ychwanegiad a groesawyd, gyda 26 o wirfoddolwyr o bob oed yn ymuno i'w plannu.

3.14.2 Dywedodd Alastair Church, Cadeirydd Pwyllgor y Padog, *"Diolch o galon am gefnogi ein perllan.Gobeithiwn yn fawr y bydd y berllan o gymorth pellach i ddod â’r gymuned ynghyd drwy'r gwaith parhaus i'w chynnal/medi/bwyta ac yfed y ffrwythau!"*

Perllan yn y Padog yn y Graig:-



**3.15 Rhandir Cymunedol Cae Perllan**

3.15.1 Wedi'i leoli yn ward Gaer yng Nghasnewydd, yn gyfagos â'r llinell reilffordd. Mae Cae Perllan yn darparu lleiniau rhandir traddodiadol i nifer fawr o drigolion. Cafodd y safle ei ehangu'n ddiweddar i wneud lle ar gyfer llain dyfu fawr gymunedol a fydd yn darparu bwyd i'r bwnc bwyd lleol ac ar gyfer cynllun bocs bwyd cymunedol. Mae 30 o goed ffrwythau rhywogaeth gymysg wedi'u plannu, gan greu Rhodfa Berllan a fydd, ar ôl iddi gael ei sefydlu, hefyd o gymorth i guddio'r llinell reilffordd. Bydd y ffrwythau o'r coed hefyd yn cael eu defnyddio yn y cynllun bocs bwyd cymunedol. Plannwyd y coed dros nifer o ddiwrnodau yn olynol gyda hyd at 6 o wirfoddolwyr yn dod i helpu bob dydd. Ceir ymdeimlad cryf o ethos "cyfeillgar i natur" ar y safle neilltuol hwn. Anogir deiliaid yr holl leiniau yn weithredol i roi cymaint o ystyriaeth ag sy'n bosibl i fywyd gwyllt. Gadewir yr ymylon i dyfu, gadewir lleiniau dethol i natur dyfu'n wyllt, mae'r teulu lleol o lwynogod yn byw mewn ardaloedd o dir prysg trwchus. Mae pwyllgor y rhandir yn awyddus i gefnogi bioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd bosib. Rhandir Cymunedol Cae Perllan a wnaeth ysbrydoli'r Pecynnau Bywyd Gwyllt a ddatblygwyd gennym yn rhan o'r prosiect hwn.

**3.16 Rhandiroedd Ladyhill**

3.16.1 Rhandir Ladyhill yw un o safleoedd rhandir mwyaf Casnewydd, ac fe'i ceir yn ward Alway yng Nghasnewydd. Cafodd perllan ei phlannu ar y safle hwn hefyd. Mae'r safle mawr yn gymysgedd o leiniau rhandir traddodiadol ac ardaloedd tyfu cymunedol, a hefyd yn cynnwys Gardd y Cynfilwyr. Plannwyd ugain o goed ffrwythau rhywogaeth gymysg mewn grwpiau ar wahân ar draws y safle, gyda deg o ddeiliaid lleiniau'n gwirfoddoli i'w plannu, gan roi hwb i fioamrywiaeth a rhoi ffrwyth am ddim i bobl leol.

3.16.2 Yn aml, gwerddonau ymhlith rhai o'n hardaloedd mwyaf trefol yw'r rhandiroedd yng Nghasnewydd. Maent yn darparu cynefin a chysylltedd hanfodol i fywyd gwyllt lleol, a chyfleoedd i bobl ymgysylltu â natur o fewn eu cymunedau. Mae'r cymunedau a'r deiliaid lleiniau'n amrywio rhwng garddwyr rhandir traddodiadol, cynlluniau tyfu banc bwyd cymunedol, lleiniau i gynfilwyr a chynlluniau talu'n ôl i'r gymuned, ac mae'r rhain oll wedi elwa'n uniongyrchol ar y prosiect hwn.

3.16.3 Mae arferion garddio a thyfu yn amrywio rhwng y naill safle a'r llall. Ymwelwyd â phob safle gan asesu ei werth o safbwynt natur, a threulio amser gyda nifer o ddeiliaid rhandir, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau amrywiol o bwyllgorau rhandir, yn siarad â nhw ynghylch mân newidiadau neu welliannau bioamrywiaeth a allai wneud gwahaniaeth go iawn er budd natur a phobl. Enghreifftiau o hyn oedd eu hannog i adael un lain o leiaf o fewn eu safle ar gyfer natur, gadael i'r ymylon dyfu a gosod blychau adar. Mae gan bob safle ei stori ei hun....Robin Goch penodol sy'n ymddangos pan geir sŵn siffrwd paced o greision, neu lwynog sy'n ymddangos o'r isdyfiant ar yr un pryd bob nos. Gyda hyn mewn golwg, gwnaethom ddatblygu 22 o becynnau bywyd gwyllt. Roedd y pecynnau'n cynnwys popeth a oedd ei angen i sbarduno diddordeb dyfnach mewn natur ymhlith deiliaid rhandir ac annog ymagwedd fwy cyfannol a natur-gyfeillgar at dyfu.

Pecyn bywyd gwyllt rhandiroedd:-



3.16.4 Cafodd saith bag 1 kilo o hadau cymysg Butterfly and Bee Wildflower a chwe bag 1 kilo o hadau cymysg Wild Bird Wildflower, y naill a'r llall wedi'u cymysgu'n arbennig i gynnwys 20 rhywogaeth o restr Planhigion i Beillwyr y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol, ac arni rywogaethau fel tafod yr ych, cribell felen, carpiog y gors, clafrllys ac ati, eu prynu a'u dosbarthu mewn pecynnau llai i'w rhannu ar draws 18 o'r safleoedd rhandir, i'w hau mewn lleoliadau ac ar leiniau priodol sy'n anaddas i'w defnyddio i gynhyrchu bwyd. Gyda'i gilydd, bydd hyn yn creu tua 700 metr sgwâr o gynefin blodau gwyllt.

3.16.5 Roedd pob pecyn yn cynnwys:

- 2 goeden neu lwyn ffrwythau (yn dibynnu ar faint safle'r rhandir) i ddenu peillwyr
- 2 flwch adar addas i'r titw mawr, y titw tomos las a'r titw penddu
- 2 flwch adar addas i'r robin a'r aderyn du
- 2 westy trychfilod addas i adenydd siderog, gwenyn unig a buchod coch cwta
- Hadau blodau gwyllt i ddenu peillwyr
- Cynfasau ymlusgiaid i roi cysgod i nadroedd defaid, brogaod a llyffantod.

3.16.6 I grynhoi, cafodd 114 o goed ffrwythau eu plannu ar draws 3 phrif safle Perllan yn Graig, Cae Perllan a Ladyhill, gyda chymorth 42 o wirfoddolwyr.

3.16.7 Cafodd pecynnau bywyd gwyllt yn cynnwys 2 goeden neu lwyn ffrwythau, 44 o focsys adar addas ar gyfer y titw mawr/titw tomos las/titw penddu, 44 o flychau adar addas ar gyfer y robin goch

a'r aderyn du, ynghyd â 44 o dai gwenyn ac 11 kilo o hadau blodau gwyllt cymysg eu dosbarthu ar draws y 22 o safleoedd, a darparwyd nifer o gynfasau ymlusgiaid i bob un o'r safleoedd.


3.16.8 Ni chafwyd rhyw lawer o gyfle i gynnal gweithgareddau ymgysylltu ar gyfer y prosiect ar ffurf grŵp mawr oherwydd Cyfyngiadau Covid, ond bu modd inni gynnal un gweithgaredd plannu graddfa fawr yn Graig. Cynhaliwyd sesiynau plannu llai yng Nghae Perllan a Ladyhill.

3.16.9 Cynhaliwyd cyfanswm o 18 o ymweliadau anffurfiol i ymgysylltu â deiliaid rhandir, gan drafod arferion garddio sy'n gyfeillgar i natur, asesu'r anghenion a'r cyfleoedd i fyd natur ar bob safle a dosbarthu'r pecynnau.

**3.17 Prosiect Peillwyr Casnewydd**

3.17.1 Mae Prosiect Peillwyr Casnewydd yn mynd rhagddo, a'i nod yw:-

- Dod â chymunedau ynghyd i archwilio byd natur a dathlu pryfed peillio lleol drwy raglen o weithgareddau diddorol a chynhwysol.
- Adfer cynefinoedd peillwyr i wella cydnerthedd rhwydweithiau ecolegol, a
- Chodi ymwybyddiaeth ac ysbrydoli pobl i weithredu er budd peillwyr yn eu cymuned, gan cynnwys rhai o'r rhywogaethau yng Nghymru sydd yn fwyaf prin ac yn wynebu'r bygythiad mwyaf.




3.17.2 Drwy'r prosiect hwn, ein nod yw newid trefniadau torri gwair ardaloedd o laswelltir ar draws y Ddinas, er mwyn annog blodau gwyllt brodorol i ffynnu. Bydd hyn yn cynnwys dolydd, ymylon ffyrdd a safleoedd amrywiol ledled y sir, fel mynwentydd a pharciau. Nod cyffredinol y prosiect parhaus yw sicrhau'r canlynol:-

- Adfer/gwella/creu 5 hectar o gynefin sydd o fudd i beillwyr ac i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal, ac yn ymweld â hi. Y bydd cynefinoedd yn cael eu rheoli'n well ac mewn cyflwr gwell
- Gwella cydnerthedd rhwydweithiau ecolegol, gan gynnwys B-Lines
- Cynyddu cydnerthedd poblogaethau o beillwyr yng Nghasnewydd
- Sefydlu 3 thrawslun BeeWalk
- Datblygu gwybodaeth a sgiliau pobl i gofnodi pryfed peillio a rhannu data
- Cyflwynwyd 100 o gofnodion peillwyr newydd i SEWBReC
- Gwybodaeth well ymhlith partneriaid y Prosiect ynghylch sut i reoli cynefinoedd ar gyfer pryfed peillio.
- Dealltwriaeth well mewn cymunedau lleol o'r gostyngiad yn niferoedd y pryfed peillio ac o'r modd y gallant greu a rheoli cynefin yn well a fydd o fudd i fywyd gwyllt a phobl.
- Gwella llesiant y rhai sy'n ymwneud â'r prosiect

3.17.3 Dyma Allbynnau'r Prosiect, y mae llawer ohonynt wedi'u cyflawni neu ar ganol cael eu cyflawni:-

- Tudalen we Prosiect Peillwyr Casnewydd (wedi'i chynnal gan Buglife)
- 2 x erthygl ar gyfer cylchlythyrau/papurau lleol
- 4 x diwrnod tasg Cadwraeth. Tua. 6 gwirfoddolwr y sesiwn
- 1 x gweithdy adnabod pryfed peillio (ar-lein)
- 2 x weithdy adnabod pryfed peillio (sesiynau maes). 8 o bobl fesul gweithdy
- 1 x Sgwrs Cyflwyniad i Bryfed Peillio (ar-lein)
- 2 x diwrnod o waith dwys ar Bryfed Peillio
- 2 x daith dywys peillio.
- Hyfforddiant BeeWalk (Bumblebee Conservation Trust)
- 1 x gweithdy adnabod cacwn i ddechreuwyr
- 1 x sesiwn hyfforddi Beewalk (ar-safle)
- 2 x Sesiwn ddwys ar Gacwn er mwyn rhoi cefnogaeth ac arweiniad ar-safle i Wirfoddolwyr BeeWalk. Sesiwn cymorth ar-lein i gofnodwyr gwirfoddol x 6 o bobl fesul sesiwn
- Sefydlu 3 x thrawslun Beewalk
- Cyflwyniad i sgwrs cacwn x1 (ar agor i bawb). (BBCT)
- Cyflwyniad i gacwn (safle) x 2 (agored i bawb) (BBCT)
- 2 x gweithdy ffotograffiaeth pryfed (ar-safle)
- 8 x taith gerdded 'Nesáu at Natur'
- 16 x o weithdai hanner diwrnod 'Celf Awyr Agored'
- 4 x Adroddiad cyngor ar reoli cynefinoedd
- Adroddiad briffio cyngor rheoli cynefinoedd x 4
- Taflen nodi pryfed peillio x 1
- Ffeithlun y cyfryngau cymdeithasol x 1
- Fideo animeiddiedig x 1

3.17.4 Mae safleoedd allweddol ar gyfer gwella rheolaeth yn parhau i gael eu dewis drwy gydol y prosiect, ond byddant yn cynnwys ymylon ffyrdd amrywiol, glaswelltir yn Allt-yr-Ynn, Sain Silian, Y Gaer, Parc Glanyrafon, Dôl Wentwood, Great Oaks, Dyffryn a Sant Gwynllyw.

3.17.5 Bydd nifer o bobl ar ATVs a beiciau modur yn aml yn cael mynediad anghyfreithlon i rai o'r safleoedd allweddol. Mae'r cerbydau hyn nid yn unig yn achosi cryn difrod i'r ardaloedd sy'n cynnal bioamrywiaeth a natur, ond hefyd yn peryglu'r rhai sy'n gwneud defnydd cyfrifol o'r safleoedd. Byddwn yn ystyried gosod mesurau ataliol yn rhai o'r safleoedd allweddol er mwyn atal difrod i gynefin gwerthfawr ac annog defnydd cyfrifol.

3.17.6 Lle bo modd, byddwn yn defnyddio cymysgeddau o hadau lluosflwydd parhaol mewn ardaloedd yn lle cymysgeddau blynyddol anfrodorol, a byddwn yn parhau i ymrwymo i ganfod safleoedd newydd i bryfed peillio ledled Casnewydd, ac yn newid y modd y cânt eu rheoli er budd y pryfed hynny.

3.17.7 Gweithgareddau Allweddol

- Prynu peiriant torri a chasglu
- Prynu peiriant torri llwyni ar droed, peiriannau llaw a chyfarpar diogelu personol
- Prynu a gosod mesurau ataliol ar safleoedd allweddol
- Prynu cymysgeddau o hadau blodau gwyllt

**3.18 Enw'r Prosiect: Bryn y Barics**

3.18.1 Mae Bryn y Barics yn SINC, ac fe'i dynodwyd oherwydd ei fosäig mawr o laswelltir naturiol gwlyb a sych wedi'i led-wella, prysg, rhedyn a choetir. Mae'n agos at fan agored bach sy'n ffinio â stâd dai fawr sy'n cael ei rheoli, ac sy'n eiddo i Gymdeithasau Tai. Mae'r is-dyfiant yn cynnwys coed ynn, coed cyll, drain gwynion a'r gelynnen, sydd wedi'u gwasgaru'n eang drwy'r coetir. Mae aildyfiant y coed a'r llwyni'n aml yn brin, ond yn fwy toreithiog yn adrannau agored y brigdwf ac yn cynnwys coed ynn, helyg deilgron, ffawydd lleol, coed celyn a drain gwynion. Mieri yw haen y ddaear yn bennaf, sydd wedi llenwi unrhyw ardaloedd lle ceir bylchau yn y brigdwf. Mae'r glaswelltir agored wedi'i orchuddio'n helaeth â rhywogaethau anfrodorol goresgynnol, ac mae rhaglen o driniaethau'n cael ei chynnal ar yr ardal ar hyn o bryd.

3.18.2 Bydd y prosiect yn cynyddu gallu'r ardal i gefnogi adferiad natur, drwy gynyddu rheolaeth weithredol ar gadwraeth, cyfathrebu ac ymgysylltu â phreswylwyr lleol. Bydd hyn yn cynyddu eu hygyrchedd at fannau gwyrdd naturiol o ansawdd, gan gynnig cyfleoedd i wella a chefnogi iechyd a llesiant, a fydd yn arwain at ddefnydd cadarnhaol a chyfrifol gan y gymuned.

3.18.3 Gweithgareddau Allweddol

- Arolwg Safle a datblygu Cynllun Rheoli
- Cael Gwared â Sbwriel sy'n cael ei Dipio'n Anghyfreithlon
- Byrddau dehongli
- Gwelliannau llwybr
- Rheoli Cadwraeth Natur

**3.19 Safleoedd Bws Cyfeillgar i Wenyn**

3.19.1 Mae pum safle bws gyda thoeau gwyrdd wedi cael eu gosod, ac mae 11 o safleoedd eraill wedi'u cynllunio neu ar y gweill. Bydd y nodweddion hyn nid yn unig yn cynnig cynefin i infertebratau,

ond hefyd yn weladwy iawn ac yn codi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd y cynefinoedd hyn er budd bioamrywiaeth.

Enghraifft o safle bws sy'n gyfeillgar i wenyn, diolch i www.externiture.com.:-




**Retrospectively fitted and refurbished** green roof shelter

**3.20 Nid yw Natur yn Daclus**

3.20.1 Nod Nid yw Natur yn Daclus (NND) yw ysgogi newid mewn ymddygiad a fydd yn arwain at weithredu lleol eang i fynd i'r afael â'r gostyngiad mewn pryfed peillio. Dyma'r amcanion:-

- Gwella seilwaith gwyrdd i bryfed peillio
- Hyrwyddo rhwydweithiau ecolegol cydnerth ledled De-ddwyrain Cymru
- Hyrwyddo perchnogaeth a grymuso cymunedol yn gysylltiedig â'r gostyngiad mewn pryfed peillio, gan weithredu yn sgil hynny a rhannu ag eraill drwy brosiect Nid yw Natur yn Daclus.

3.20.2 Llywodraethu Prosiect. Mae prosiect Nid yw Natur yn Daclus (NND) yn rhan o ffrwd waith Gwent Cyfeillgar i Bryfed Peillio o fewn prosiect Grid Gwyrdd Gwent (GGG) a ariennir gan ENRaW ac a arweinir gan Reolwr Cydweithredu. Bydd y Swyddog Prosiect Nid yw Natur yn Daclus yn cydgysylltu'r prosiect, a Swyddog Gweithredu Nid yw Natur yn Daclus yn cefnogi'r gwaith i'w gyflawni. Arweinydd Bioamrywiaeth ac Ecoleg yn CS Fynwy yw arweinydd cyflawni GGG y cynllun. Fel sefydliad partner, mae'r holl awdurdodau partner wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i gadarnhau eu hymrwymiad i'r Bartneriaeth ac i gyflawni'r prosiect.

3.20.3 Bydd Awdurdodau Lleol unigol o fewn y bartneriaeth hon a gynhelir ar draws Gwent yn cyflwyno 'cais prosiectau GI' i Lywodraeth Cymru er mwyn tynnu'r arian hwn i lawr. Mae prosiectau'n parhau i gael eu datblygu, ond yn cynnwys:

- Gweithgarwch adfer glaswelltir
- Planhigion i bryfed peillio a phlannu
- Hadau a hau
- Coed a gwrychoedd a phlannu
- Dylunio a chynhyrchu arwyddion

3.20.4 Dangosir allbynnau ac arweinwyr NND yn nhabl 2 isod.

Tabl 2.

| **Canlyniad: Dull integredig o ddatblygu polisi o fewn cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill perthnasol** | **Arweinydd Cyflawni** | **Partneriaid** |
|---|---|---|
| **Allbynnau:** | | |
| Cyfarfodydd Cychwynnol gydag Awdurdodau Lleol unigol | SP NND | CBST, CBSC, CDC, CBSBG, CSF |
| Cyfarfod / gweithdy gyda'r gweithgor i sefydlu allbwn* | SP NND | CBST, CBSC, CDC, CBSBG, CSF |
| Cyfarfodydd datblygu a chynnydd dilynol | SP NND | CBST, CBSC, CDC, CBSBG, CSF |
| Sefydlu fforwm pryfed peillio ar gyfer Gwent er mwyn rhannu arfer gorau | SP NND | CBST, CBSC, CDC, CBSBG, CSF,Tasglu Pryfed Peillio Cymdeithasau Tai, Sir Fynwy sy'n Gyfeillgar i Wenyn, Cyfeillion y Ddaear, Buglife, Dolydd Sir Fynwy, Partneriaeth Natur Lleol, eraill a nodir gan y gweithgor. |
| Datblygu Polisïau Pryfed Peillio neu bolisïau tebyg i Gyrff Cyhoeddus, gan gynnwys adolygiad o'r defnydd o blaladdwyr<br><br>(Polisïau Pryfed Peillio Integredig (isafswm o 5) | SP NND a phartneriaid ALl, Cymdeithasau Tai, grwpiau diddordeb, cynghorau tref/cymuned | Aelodau'r Fforwm Pryfed Peillio |
| | | |
| **Canlyniad: Cyflwyno NND i 5 o gymunedau ychwanegol ar draws De-ddwyrain Cymru** | **Arweinydd Cyflawni** | **Partneriaid** |
| **Allbynnau** | | |
| Cyfarfod Cychwynnol gydag Awdurdodau Lleol unigol | SP NND | CBST, CBSC, CDC, CBSBG, CSF |
| Cyfarfod / gweithdy gyda'r gweithgor i sefydlu allbwn* | SP NND a SG NND | CBST, CBSC, CDC, CBSBG, CSF |

| | | |
|---|---|---|
| Nodi a chefnogi gweithredu camau y gall unigolion a rhanddeiliaid eraill eu mabwysiadu er mwyn helpu i wrthweithio'r gostyngiad mewn pryfed peillio. | SP NND a SG NND | CBST, CBSC, CDC, CBSBG, CSF |
| Sefydlu 5 cymuned i'w targedu er mwyn cynnal digwyddiadau/gweithgareddau - 1 fesul ardal awdurdod lleol. | SP NND a SG NND a phartneriaid ALl | CBST, CBSC, CDC, CBSBG, CSF |
| Datblygu a chynnal digwyddiadau ymgysylltu a fydd yn: Cynyddu lefel yr wybodaeth am y gostyngiad mewn pryfed peillio drwy weithgareddau ac adnoddau.<br>(5 digwyddiad) | SP NND a SG NND a phartneriaid ALl | CBST, CBSC, CDC, CBSBG, CSF |
| Datblygu partneriaethau â grwpiau diddordeb lleol ee Cyfeillion y Ddaear, cynghorau tref a chymuned i ddatblygu ymagwedd "ymgyrch" i godi ymwybyddiaeth ac addysgu ynghylch yr angen am bryfed peillio. (3-5 grŵp diddordeb) | SP NND a SG NND a phartneriaid ALl | CBST, CBSC, CDC, CBSBG, CSF |
| Annog ac ysgogi rhanddeiliaid, gan gynnwys cyrff cyhoeddus, o fewn cymunedau, i weithredu er budd pryfed peillio. | SP NND a SG NND | CBST, CBSC, CDC, CBSBG, CSF a rhanddeiliaid a nodir o fewn ALlau. |
| Rhoi Cyngor ac arweiniad a roddir drwy fenter Caru Gwenyn Llywodraeth Cymru i bob rhanddeiliad.<br>Isafswm o 5 statws Caru Gwenyn newydd | SP NND a SG NND | CBST, CBSC, CDC, CBSBG, CSF a rhanddeiliaid a nodir o fewn ALlau. |
| | | |
| **Canlyniad: Rhannu dysgu ac arfer gorau gan gynnwys technegau monitro** | **Arweinydd Cyflawni** | **Partneriaid** |
| **Allbynnau** | | |
| Cyfarfod Cychwynnol gydag Awdurdodau Lleol unigol | SP NND | CBST, CBSC, CDC, CBSBG, CSF |
| Cyfarfod / gweithdy gyda'r gweithgor i sefydlu allbwn* | SP NND a SG NND | CBST, CBSC, CDC, CBSBG, CSF |
| Sefydlu cod gweithredu y gall gweithredwyr gyfeirio ato er mwyn galluogi rheolaeth ar bryfed peillio. | SP NND a SG NND | CBST, CBSC, CDC, CBSBG, CSF |
| Darparu gwybodaeth a hyfforddiant i staff cyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am gynnal a chadw seilwaith gwyrdd | SP NND a SG NND | CBST, CBSC, CDC, CBSBG, CSF |
| Gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid eraill fel Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Buglife a'r BBCT i ddatblygu trefniadau monitro ee, gwyddor dinasyddion. | SP NND a SG NND | Rhanddeiliaid allweddol, CBST, CBSC, CDC, CBSBG, CSF |
| Hyrwyddo 1 cynllun gwyddor dinasyddion ym mhob cymuned (5 i gyd-fynd â NND)** | SP NND a SG NND a rhanddeiliaid a nodir o fewn ALlau | CBST, CBSC, CDC, CBSBG, CSF |

*allbwn sy'n bodloni anghenion a dyheadau'r ALl i reoli pryfed peillio, a allai fod yn wahanol mewn gwahanol ALlau ar draws y rhanbarth.
**defnyddio trefniadau monitro NND a fabwysiadwyd gan CSF neu drefniadau eraill ar ôl ymgynghori â'r All

SP NND = Swyddog Prosiect Nid yw Natur yn Daclus
SG NND = Swyddog Gweithredu Nid yw Natur yn Daclus
ALlau = Awdurdodau Lleol (Pob gweithiwr perthnasol gan gynnwys Cynnal a Chadw Tiroedd / Cefn Gwlad / Gwasanaethau Stryd ac ati).

3.20.5 Ni fwriedir i'r prosiect NND ddisodli unrhyw fentrau peillio sydd eisoes yn weithredol yn unrhyw un o'r ardaloedd Awdurdod Lleol partner. Y nod yw y bydd y prosiect yn ategu ein gwaith ac, yn arbennig, yn helpu i gefnogi ac ysgogi camau sy'n gyfeillgar i bryfed peillio, ac yn cynyddu lefel y ddealltwriaeth a'r wybodaeth ymhlith y cyhoedd ynghylch pwysigrwydd yr holl bryfed peillio.

3.20.6 Yr Awdurdodau Lleol sy'n parhau i fod yn gyfrifol am ohebiaeth gan y cyhoedd ynghylch unrhyw newidiadau i drefniadau rheoli safleoedd. Fodd bynnag, mae'r prosiect yn hyrwyddo rhannu arfer gorau wrth ymdrin ag adborth negyddol, gan gynnwys datblygu unrhyw adnoddau / gyhoeddusrwydd i leihau cwynion.

3.20.7 Caiff cyflawniad prosiect ENRAW ei fesur gan Lywodraeth Cymru yn erbyn yr amserlen gyflawni a gyflwynwyd gyda Chynllun Cyflawni'r grant, a nodir yn nhabl 3 isod.

Tabl 3.

| Gwaith parhaus | Blwyddyn 2 (2021-2022) | | | | Blwyddyn 3 (2022-2023) | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carreg Filltir Allweddol | | | | | | | | |
| **Cyflawniad y Prosiect** | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 |
| Penodi i swyddi | | | | | | | | |
| Sefydlu Fforwm Pryfed Peillio | | | | | | | | |
| Sefydlu grwpiau diddordeb lleol | | | | | | | | |
| Defnyddio dulliau newydd o ymgysylltu â'r gymuned | | | | | | | | |
| Gwybodaeth a Hyfforddiant i reolwyr tir gan gynnwys cod gweithredu | | | | | | | | |
| Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu trefniadau monitro ee Gwyddor y dinesydd -Cychwyn monitro | | | | | | | | |
| Datblygu polisïau pryfed peillio | | | | | | | | |

### 3.21 Ffordd i Natur

3.21.1 Amnag 20 mlynedd, roedd gwastraff wedi cael ei dipio'n anghyfreithlon ar hen ffordd gerbydau segur ger Coedcernyw, a oedd yn cael ei hadnabod yn lleol fel y 'Ffordd i'r Unlle'. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ag ymgyrch Taclo Tipio Cymru ac aelodau o'r gymuned lol i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon, ac mae tua 650 o dunelli o wastraff wedi cael ei symud o'r ardal. Roedd modd ailgylchu rhan helaeth o'r gwastraff - tua 85% - gan gynnwys tua 1800 o deiars ceir.




3.21.2 Ers hynny, mae'r safle'n cael ei alw'n 'Ffordd at Natur', ac mae grŵp gwirfoddol wedi cael ei sefydlu o'r enw Cyfeillion y Ffordd at Natur. Y gobaith yw y bydd y safle'n rhoi mwy o gyfleoedd i'r cyhoedd gael mynediad at natur a rhyngweithio â natur yn y man gwyrdd newydd hwn. Drwy ymgysylltu â Chyngor Dinas Casnewydd, Asiantaethau Cawraeth Natur lleol a'r gymuned leol, ceir dyhead i wella cynefinoedd a helpu i gefnogi cynnydd mewn bioamrywiaeth yn yr ardal. I'r perwyl hwn, mae cyfres o weithgareddau cymunedol wedi cael eu cynnal yn yr ardal, gan gynnwys 'bioblitz' mewn cydweithrediad â Buglife, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, Cadwch Gymru'n Daclus ac eraill.

## 3.22 Amcan 4: Ymdrin â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

## 3.23 Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol

3.23.1 Un o'r prif ffactorau sy'n rhoi pwysau ar ein hecosystemau yw presenoldeb rhywogaethau o blanhigion anfrodorol goresgynnol (INNS), sy'n drech na rhywogaethau brodorol ac yn lleihau'r amrywiaeth o blanhigion. Mae hyn wedyn yn cael effaith ar amrywiaeth y rhywogaethau o fewn yr ecosystem ehangach. Fodd bynnag, mae rhai INNS yn cael effaith fwy uniongyrchol ar lesiant dynol, ac mewn nifer o achosion yr effaith uniongyrchol ar breswylwyr sy'n creu'r ysgogiad i CDC drin y rhywogaethau hynny. Er enghraifft, gall canclwm Japan achosi i strwythurau adeiledig ymsuddo a difrodi tarmac, gall Jac y neidiwr achosi erydiad ar lannau afonydd, ac mae'n disodli rhywogaethau brodorol a fyddai fel arall yn sefydlogi'r glannau hynny, a gall yr efwr enfawr achosi llid a llosg ar y croen wrth ei gyffwrdd, gan achosi ffytoffotodermatitis.

3.23.2 Dros gyfnod yr adroddiad hwn, mae rhaglenni trin wedi cael eu cynnal ar yr holl rywogaethau hyn a mwy, a oedd yn aml yn golygu gwneud defnydd gofalus o chwynladdwyr cemegol lle nad oedd modd osgoi hynny, ond hefyd drwy ymdrechion gan grwpiau gwirfoddol i dynnu planhigion INNS ymaith; gelwir hyn yn 'chwalu chwyn'.

3.23.3 Lle defnyddir triniaeth gemegol, cyflogir gweithwyr hyfforddedig a chofnodir manylion y safle a'r meintiau a ddefnyddir. Nid yw data ar gael ynghylch nifer yr hectarau lle mae rhywogaethau INNS wedi cael eu trin, ond yn 2021 cafodd tua 25 o hectarau eu harolygu a 38 o safleoedd eu trin. Isod yn Nhabl 4, ceir enghraifft o gofnod sy'n dangos y gyfundrefn chwistrellu ar gyfer un rhywogaeth, canclwm Japan, ond dros **y cyfnod adrodd amcangyfrifir bod yr holl INNS wedi cael eu trin ar 169 o safleoedd unigol.**

Tabl 4.

| **<u>Cofnod Chwistrellu Cynnal a Chadw Tir yng Nghefn Gwlad 2020</u>** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Lleoliad y Safle** | **Rhywogaethau Goresgynnol a gafodd eu trin** | **Rheswm dros drin** | **Dyddiad Chwistrellu** | **Oriau gweithiwr @£25 yr awr** |
| Brickyard Lane | Canclwm | Cael gwared â rhywogaethau goresgynnol | 17/08/2020 | 2.5 |
| Coed Brynglas | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 17/08/2020 | 3.5 |
| Llwybr Milltir Parc New Grove | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 18/08/2020 | 2 |
| Ardal Coed Cefn | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 19/08/2020 | 2 |
| Safle Meithrinfa Greenfield | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 19/08/2020 | 2 |
| Pontymason (pen y gamlas) | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 20/08/2020 | 2.5 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pontymason at y Cwrs Golff (heibio'r gamlas) | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 20/08/2020 | 2 |
| Glan Afon Mead | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 25/08/2020 | 3.5 |
| Glan Afon Basaleg | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 26/08/2020 | 2 |
| Gorsaf Reilffordd Ffordd Tregwilym | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 01/09/2020 | 2 |
| Glannau Parc y Gelli | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 01/09/2020 | 2.5 |
| Llwybr cerdded i Barc Shaftesbury | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 01/09/2020 | 2 |
| Ardal MUGA Dyffryn | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 03/09/2020 | 2 |
| Parc Lysaghts | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 03/09/2020 | 2 |
| Parc Aberhonddu ar Radnor Road | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 03/09/2020 | 2.5 |
| Llannerch Coedwig y Parc Coetir | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 03/09/2020 | 2 |
| Ardal Marshfield | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 04/09/2020 | 3 |
| Parc Gem Parc Clifton | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 04/09/2020 | 2 |
| Parc Hamdden Llyswyry | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 04/09/2020 | 3 |
| Gilfach Coed Gwent | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 04/09/2020 | 3 |
| Glebelands | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 04/09/2020 | 2 |
| Rhodfa Harlequin | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 07/09/2020 | 4.5 |
| Pwll Llyswyry (Spion Cop) | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 07/09/2020 | 3.5 |
| Parc y Capel | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 07/09/2020 | 2 |
| Church Crescent Dyffryn | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 08/09/2020 | 4 |
| Coedcernyw | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 08/09/2020 | 4 |
| Lôn Allt yr Ynn | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 14/09/2020 | 2 |
| Mynwent Gwynllyw | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 14/09/2020 | 4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Parc Tredegar | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 23/09/2020 | 5.5 |
| Safle Hen Gwrs Golff Parc Tredegar | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 23/09/2020 24/09/2020 25/09/2020 | 18 |
| Glan yr afon ar hyd Whiteheads | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 29/09/2020 | 3 |
| Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (ardaloedd gwyllt wedi'u gorchuddio) | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 29/09/2020 | 6 |
| Friars Walk (GLAN YR AFON) | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 02/10/2020 | 2 |
| Llwybr Glan yr Afon | Canclwm | Cael gwared â rhyw. gor. | 02/10/2020 | 2.5 |
| | | **Cyfanswm o Oriau** | | 111 AWR |

### 3.24 Newid Hinsawdd

3.24.1 Mae'r newid hinsawdd, wrth gwrs, yn ffactor allweddol sy'n rhoi pwysau ar ein hecosystemau, a bydd gostyngiad mewn allyriadau carbon a chynnydd yng nghyfradd y carbon sy'n cael ei ddal a'i storio yn y pen draw yn lliniaru effeithiau'r newid hinsawdd ar yr ecosystemau hyn. Yn yr un modd, bydd gwella ein seilwaith gwyrdd o gymorth i ymaddasu i effeithiau'r newid hinsawdd ar ein bywydau. Rhoddir ystyriaeth fanylach uchod i'r berthynas rhwng y Cynllun Newid yn yr Hinsawdd a bioamrywiaeth, ond wrth symud ymlaen ceir rhyngweithio adeiladol rhwng y Cynllun Newid Hinsawdd a phroses y ddyletswydd Adran 6. Er enghraifft, mae gerddi glaw wedi cael eu creu yng nghanol y ddinas i arafu dŵr glaw, ac mae mwy ohonynt ar y gweill.

### 3.25 Colli a Darnio Cynefinoedd

3.25.1 Gall twf dinas fel Casnewydd achosi i gynefinoedd gael eu colli neu eu darnio, pan ddyrennir safleoedd maes glas i'w datblygu. Fodd bynnag, mae Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnwys cyfres o bolisïau sy'n anelu i sicrhau y caiff niwed ei osgoi, ei liniaru ac, os oes angen, y gwneir iawn amdano, yn yr amgylchedd naturiol. Mae'r polisïau hyn, a'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Bywyd Gwyllt a Datblygu sy'n eu cefnogi, eu gweithredu gan Swyddogion Cynllunio yn unol â chyngor y Swyddog Ecoleg. Mewn perthynas â hynny, mae'r Swyddog Ecoleg wedi gwneud sylwadau ynghylch dros 300 o geisiadau cynllunio dros y flwyddyn ddiwethaf, gan geisio gweithredu'r polisïau hyn a sicrhau gwelliannau, neu fudd net o ran bioamrywiaeth, i wrthweithio achosion o golli neu ddarnio cynefinoedd.

3.25.2 Yn ogystal â hynny, mae CDC a Chyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio mewn partneriaeth ag unigolion a sefydliadau i nodi nifer o ymyriadau seilwaith gwyrdd (SG) ac atebion sy'n seiliedig ar natur ar gyfer canol y Ddinas, sydd hefyd yn gwrthweithio achosion o golli neu ddarnio cynefinoedd. Yr ardal dan astudiaeth yw canol y ddinas, fel y'i diffinnir yn Uwchgynllun Canol Dinas Casnewydd (2018), ac mae'r cyntaf o nifer o brosiectau ymarferol, fel gerddi glaw yng Nghanol y Ddinas ar ganol cael eu gweithredu.

### 3.26 Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro

3.26.1 Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud defnydd o ystod o ffynonellau tystiolaeth, data a gwybodaeth er mwyn goleuo penderfyniadau ynghylch yr amgylchedd naturiol. Mae ffynonellau data ar gael ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft mewn perthynas â Atebion ar Sail Natur,Gwerth Cymharol Cyfredol Cydnerthedd Ecosystemau (CURVE), aMap Data Cymru Dyma ffynonellau gwybodaeth eraill a ddefnyddir gennym:-

### 3.27 Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWBReC)

3.27.1 Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnal cytundeb lefel gwasanaeth â SEWBReC, y Ganolfan Cofnodion Leol, sy'n rhoi mynediad i'r Awdurdod cyfan at gofnodion bioamrywiaeth cyfredol. Caiff y data hyn eu defnyddio'n fynych yn sail ar gyfer cyngor ynghylch ceisiadau cynllunio, ac i lywio gweithgareddau cadwraeth natur ymarferol. Rhoddir sylw arbennig i nifer y rhywogaethau arrestrau adran 7 o rywogaethau a chynefinoedd.

### 3.28 Asesiad Seilwaith Gwyrdd

3.28.1 Er mwyn cynnig dadansoddiad mwy cynhwysfawr o'r seilwaith gwyrdd sydd ar gael yng Nghasnewydd, ac o'r lleoliadau mwyaf effeithiol i gyfeirio ymdrechion i wella'r adnodd hwnnw, comisiynwyd a lluniwyd Asesiad Seilwaith Gwyrdd. Yn ogystal â llywio'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, canllawiau cynllunio atodol newydd a mentrau strategol eraill perthnasol, mae'r astudiaeth yn cynnig fframwaith i lywio asesiadau safle manylach o Seilwaith Gwyrdd ar safleoedd datblygu, yn rhan o'r broses gynllunio.

3.28.2 Y bwriad hefyd yw goleuo ymagwedd BGC Casnewydd yn Un at wella canlyniadau llesiant y ddinas, drwy gynyddu budd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol, ac economaidd Seilwaith Gwyrdd hyd yr eithaf, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r nodau llesiant cenedlaethol.

3.28.3 Mae'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd, a ddatblygwyd yn unol â chanllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru, yn nodi math a maint yr asedau a rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a geir ar hyn o bryd yng Nghasnewydd ar lefel strategol, ac yn amlygu'r swyddogaethau y maent yn eu cyflawni. Mae'n nodi'r prif heriau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol i Gasnewydd, ac yn tynnu sylw at y modd y gall Seilwaith Gwyrdd helpu i fynd i'r afael â'r rhain drwy'r buddion lluosog y mae'n eu cynnig, gan gynnwys:

- Iechyd a llesiant
- Bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau
- Newid hinsawdd a chynaliadwyedd
- Cydlyniant cymdeithasol
- Yr Economi
- Naws am le

3.28.4 Mae’r astudiaeth hefyd yn nodi, ar lefel strategol, y lleoedd lle mae angen, neu lle ceir cyfle i wella cyflwr neu gynyddu'r asedau a'r rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd presennol, neu greu Seilwaith Gwyrdd newydd. Dylid darllen y canfyddiadau ar y cyd ag Astudiaeth Dichonoldeb Seilwaith Gwyrdd

Canol Dinas Casnewydd, sy’n nodi cyfleoedd Seilwaith Gwyrdd safle-benodol ac atebion sy’n seiliedig ar natur yng nghanol y Ddinas.

3.28.5 Mae’r Asesiad Seilwaith Gwyrdd yn creu sail i ddatblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Casnewydd, gan gynnwys cynllun cyflawni prosiect gan nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid lleol.

**3.29 Astudiaeth Dichonoldeb Seilwaith Gwyrdd Canol Dinas Casnewydd Mai 2022**

3.29.1 Mae Cyngor Dinas Casnewydd a Chyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag unigolion a sefydliadau i nodi nifer o ymyriadau seilwaith gwyrdd (SG) ac atebion sy’n seiliedig ar natur ar gyfer canol y Ddinas. Ardal yr astudiaeth yw canol y ddinas fel y’i diffinnir yn Uwchgynllun Canol Dinas Casnewydd (2018) sy’n cynnwys wardiau Porth y Gogledd, Craidd y Ddinas a Glan yr Afon (i’r dwyrain o Afon Wysg). Cyfeiriwyd hefyd at Asesiad Seilwaith Gwyrdd Casnewydd (CBA 2022), sy’n bwrw golwg strategol ar gynlluniau SG ar draws y Ddinas gyfan.

3.29.2 Y bwriad yw canfod atebion aml-swyddogaethol, cost-effeithiol sy'n seiliedig ar natur, sy'n sicrhau'r budd mwyaf o ran yr amgylchedd, cymdeithas, diwylliant a'r economi. Mae seilwaith gwyrdd yn elfen bwysig wrth ymaddasu i'r newid hinsawdd ac adfer natur, ac mae'n helpu'r Ddinas i fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

3.29.3 Roedd y broses o nodi prosiectau yn cynnwys dau ymweliad safle diwrnod o hyd ym mis Ionawr 2022 a nifer o alwadau fideo â swyddogion Cyngor Dinas Casnewydd a CNC. Paratowyd mapiau GIS hefyd, gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan yr awdurdodau i ddisgrifio'r amgylchedd. Cyflwynwyd Rhestr Hir o gynlluniau a awgrymwyd i randdeiliaid yn ystod dau ddigwyddiad ymgynghori ar-lein ar 8 a 10 Chwefror 2022. Trefnwyd dau gyfarfod i roi mwy o gyfleoedd i bobl gymryd rhan. Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys preswylwyr, cynghorwyr, swyddogion y cyngor yn ogystal â chynrychiolwyr busnesau a Chasnewydd Nawr, yr Ardal Gwella Busnes leol.

3.29.4 Ar ôl derbyn adborth gan randdeiliaid am y Rhestr Hir, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys rhestr gyfunol o brosiectau, gyda phob prosiect wedi'i amlinellu ar y tudalennau dilynol. Mae pob prosiect yn cynnwys disgrifiad byr, y rhesymeg dros y prosiect, y buddion a ragwelir a'r costau dangosol. Y bwriad yw i brosiectau gael eu datblygu, gyda gwaith cynllunio a dylunio mwy manwl, gan y sefydliadau a'r partneriaethau priodol, ar ôl sicrhau cytundeb mewn egwyddor, a sicrhau bod cyllid ar gael. Dylid nodi nad yw'r rhestr o brosiectau posibl yn yr adroddiad hwn yn hollgynhwysol, a gobeithir wrth i fwy o bobl ddod i wybod am fuddion SG, y byddant yn cynnig cynlluniau addas eraill.

**3.30 Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni’r amcanion**

3.30.1 Mae’r Tîm Cefn Gwlad a Chadwraeth yn cydweithio’n agos, ac mae perthnasoedd â llawer o dimau eraill o fewn Cyngor Dinas Casnewydd wedi’u hen sefydlu. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd i gryfhau'r trefniadau gwaith presennol a meithrin cysylltiadau newydd ag adrannau eraill nad ydynt yn y gorffennol wedi manteisio ar gyngor y Tîm hwn. Mae swydd y Swyddog Ecoleg wedi cael ei gyflawni gan dri o bobl gwahanol dros y cyfnod adrodd, ac yn anochel mae hyn wedi effeithio ar gynnydd yn gysylltiedig â hynny. Yn yr un modd, gan nad oes blaengynllun mae'r ymagwedd at y

ddyletswydd bioamrywiaeth wedi bod o natur fwy ad-hoc, gan ddangos dylanwad y ddyletswydd NERC flaenorol a Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol o bosib.

3.30.2 Gan nad oes gan Gyngor Dinas Casnewydd Flaengynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth ar waith, bydd y blaengynllun yn esblygu dros y cyfnod adrodd nesaf o dair blynedd yn unol â'r Fframwaith ar gyfer Llywodraethu a Chyflawni, fel y nodir isod. Bydd hyn yn cynnwys yr adolygiad teirblynyddol, ac yn galluogi cynnydd mwy cydgysylltiedig a threfniadau adrodd mwy manwl gywir wrth arwain at 2025.



**4.0 Blaengynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Cyngor Dinas Casnewydd 2023 - 2025.**

4.0.1 Bydd Blaengynllun y Ddyletswydd Bioamrywiaeth yn seiliedig ar yr un chwe amcan â'r adroddiad cyfredol, ac yn cynnwys Fframwaith Llywodraethu a Chynllun Gweithredu. Bydd y chwe amcan yn cael rhannu'n dri amcan cyffredinol sy'n gyffredin i phob rhan o'r awdurdod, a thri amcan penodol y bydd angen i bob un o'r 11 o feysydd gwasanaeth fynd i'r afael â nhw'n unigol.

| **Amcanion Cyffredinol** | **Amcanion Penodol** |
|---|---|
| Ymwreiddio bioamrywiaeth ar bob lefel yn y broses benderfynu | Ymdrin â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd. |
| Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro. | Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn |
| Creu fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni. | Adfer cynefinoedd wedi'u diraddio, a chreu cynefinoedd. |
| ↓ | ↓ |
| Fframwaith Llywodraethu | Cynlluniau Gweithredu Maes Gwasanaeth |

4.02 Ceir cysylltiadau agos hefyd rhwng Blaengynllun y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a'r Cynllun Newid Hinsawdd Sefydliadol, ac yn enwedig amcan 'Ein Tir' y cynllun hwnnw. Sefydlwyd Bwrdd Prosiect Newid yn yr Hinsawdd i arwain datblygiad y cynllun, ac fe gafodd staff a rheolwyr o bob rhan o'r Cyngor eu cynnwys yn y gwaith i lunio drafft ymgynghori o'r Cynllun o ddefnyddio'r Trywydd at Ddatgarboneiddio fel fframwaith. Wrth symud ymlaen, bydd gwaith i integreiddio'r ddyletswydd bioamrywiaeth i swyddogaethau'r Cyngor yn cyd-fynd yn agos â'r Cynllun Newid Hinsawdd Sefydliadol, er mwyn i fioamrywiaeth, seilwaith gwyrdd a chydnerthedd ecolegol gynyddu eu cyfraniad hyd yr eithaf at liniaru ac ymaddasu i'r newid hinsawdd.


4.03 Bydd yr un chwe amcan yn y Cynllun Dyletswydd Adran 6 yn cael eu defnyddio yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, ac sy'n esbonio sut mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cydweithio â gwirfoddolwyr a phartneriaid i gynnal prosiectau cadwraeth natur yn y gymuned. Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol yn fwy perthnasol i elfen 'Ein Rôl Ehangach' yn y Cynllun Newid Hinsawdd, a dangosir y berthynas rhwng Blaengynllun y Ddyletswydd Bioamrywiaeth, y Cynllun Newid Hinsawdd a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol yn y diagram isod.

4.04 Bydd mynd i'r afael â Blaengynllun y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol yn y modd hwn, gan ddatblygu a gweithredu'r naill strategaeth a'r llall yn gyfochr â'i

gilydd ac yn seiliedig ar yr un graddfeydd amser a'r un chwe amcan cyffredin, yn galluogi mewnbwn mwy cydlynol i broses y Cynllun Newid Hinsawdd Sefydliadol.



# Y Ddyletswydd Adran 6, y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a'r Strategaeth



4.1 **Fframwaith Llywodraethu - Ymgorfforі bioamrywiaeth ar bob lefel yn y broses benderfynu**.

4.1.1 Mae ymateb Cyngor Dinas Casnewydd i Ddyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 wedi'i arwain gan y Tîm Cefn Gwlad a Chadwraeth, o fewn adran yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd yng Nghyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Mae'r Tîm Cefn Gwlad a Chadwraeth yn cynnwys Swyddog Ecoleg, a fydd yn parhau i roi cyngor ac arwain ar gynhyrchu ac adrodd ar y ddyletswydd bioamrywiaeth.

4.1.2 Yn ôl y canllawiau, dylai awdurdodau cyhoeddus ymwreiddio ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau'n fuan wrth feddwl am syniadau a chynllunio busnes, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau o ddydd i ddydd. Dylai pob swyddogaeth o fewn awdurdod lleol ystyried ymhle a sut y gallant gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd. Mewn rhai achosion bydd hi'n fwy priodol i weithredu ar draws y sefydliad yn ei gyfanrwydd.

4.1.3 Yr arfer gorau fyddai cynnwys y cynllun A6 yn rhan o'r Cynllun Corfforaethol, ac wrth gyhoeddi'r Cynllun hwnnw, byddai'r gofyniad i gyhoeddi'r cynllun A6 yn cael ei fodloni. Gellid cyhoeddi'r cynllun ar ffurf dogfen ychwanegol neu ar wahân ar unrhyw ffurf sy'n hygyrch i'r cyhoedd, gan gynnwys ar wefan yr awdurdod cyhoeddus. Yr arfer gorau fyddai cynnwys hyn ar adran gorfforaethol y wefan.

4.1.4 Bydd y Tîm Cefn Gwlad a Chadwraeth felly'n parhau i geisio sicrhau bod bioamrywiaeth a'r ddyletswydd A6 yn cael eu hymgorffori mewn trefniadau rheoli perfformiad, Cynlluniau Llesiant, Datganiadau Llesiant, cynllunio busnes a monitro cyllidebau, systemau rheoli perfformiad, ymgyngoriadau ac archwiliadau mewnol.

4.1.5 Yn sgil y camau hyn, dylem fod mewn sefyllfa i adrodd ar y canlynol yn 2025:-

- Ymrwymiadau a wnaed yn y cynllun corfforaethol
- Camau i ymgorffori bioamrywiaeth a'r ddyletswydd A6 i drefniadau rheoli perfformiad, drwy Ddatganiadau Amgylcheddol, Cynlluniau Llesiant Lleol, Datganiadau Llesiant, Cynllun A6 ar wahân, cynllunio busnes a monitro cyllidebau, systemau rheoli perfformiad, ymgyngoriadau ac archwiliadau mewnol
- Sut mae gwerth Bioamrywiaeth wedi phennu'n fwy effeithiol ac ar gyfer y tymor hwy wrth wneud penderfyniadau
- Sut rydym wedi sicrhau bod swyddogaethau ar draws y sefydliad yn gweithredu er budd bioamrywiaeth yn rhan o fusnes fel arfer
- Codi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad, er enghraifft drwy ddarparu modiwlau hyfforddi gorfodol neu wirfoddol, cynnal seminarau neu ddarparu gwybodaeth i amlygu pwysigrwydd a gwerth bioamrywiaeth a'r modd yr ydym fel sefydliad yn cyfrannu at gamau gweithredu.
- Rhestr o bolisïau cyhoeddedig a newidiwyd i ymgorffori bioamrywiaeth
- Dulliau neu dechnegau a dreialwyd i bennu gwerth bioamrywiaeth
- Rhestr o fentrau hyfforddiant / codi ymwybyddiaeth ynghylch bioamrywiaeth a manylion pellach
- Nifer y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant

4.2 **Fframwaith Llywodraethu - Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro.**

4.2.1 Dylid cadw'r cytundeb lefel gwasanaeth a'r Ganolfan Cofnodion Lleol - SEWBReC - oherwydd bydd hynny'n sicrhau bod yr holl gyngor a'r penderfyniadau ynghylch bioamrywiaeth yn cael eu gwneud yn sgil tystiolaeth gyfredol ar ffurf cofnodion bioamrywiaeth. Byddwn yn parhau i wneud defnydd o ystod o ffynonellau tystiolaeth, data a gwybodaeth er mwyn goleuo penderfyniadau ynghylch yr amgylchedd naturiol. Mae ffynonellau data ar gael ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft mewn perthynas ag Atebion ar Sail Natur, Gwerth Cymharol Cyfredol Cydnerthedd Ecosystemau (CURVE), a Map Data Cymru. Yn ogystal â hynny, bydd Asesiad Seilwaith Gwyrdd Casnewydd, fel sy'n ofynnol yn Adran 6.2.6 o Bolisi Cynllunio Cymru, yn cael ei ddatblygu ymhellach wrth archwilio a mapio'n fanylach y lleoliadau â'r cyfleoedd gorau i wella seilwaith gwyrdd.

4.2.2 Yn 2025 dylem fod mewn sefyllfa i adrodd ar:-

- Casglu a rhannu tystiolaeth
- Defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i wneud penderfyniadau, er enghraifft defnyddio data'r Ganolfan Cofnodion Amgylchedd Lleol mewn penderfyniadau cynllunio
- Rhoi sylw i restrau adran 7 o rywogaethau a chynefinoedd, yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal lle bônt ar gael
- Sicrhau bod data ar gael drwy Ganolfannau Cofnodion Amgylchedd Lleol.
- Sicrhau bod ein tystiolaeth amgylcheddol yn hygyrch i gymunedau lleol
- Ffynonellau data a gafodd eu creu neu eu gwella mewn perthynas â diogelu rhywogaethau/cynefinoedd pwysig iawn
- Ffynonellau data a gafodd eu creu neu eu gwella mewn perthynas â rhwydweithiau ecolegol cydnerth
- Penderfyniadau cynllunio a wnaed drwy ddefnyddio tystiolaeth am fioamrywiaeth, ee, Nifer y ceisiadau cynllunio a oedd yn effeithio ar safleoedd dynodedig lleol neu genedlaethol, Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop (EPS) neu rywogaethau A7, niferoedd a wrthodwyd oherwydd safleoedd dynodedig lleol neu genedlaethol, EPS neu gynefinoedd neu rywogaethau A7.

4.3 **Fframwaith Llywodraethu - Creu fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni.**

4.3.1 Bydd y Tîm Cefn Gwlad a Chadwraeth yn parhau i gydweithio'n agos, a bydd perthnasoedd â Meysydd Gwasanaeth eraill o fewn Cyngor Dinas Casnewydd a NORSE yn cael eu cryfhau neu eu sefydlu. Serch hynny, mae gwaith o hyd i'w wneud o ran cryfhau'r trefniadau gwaith presennol a meithrin cysylltiadau newydd ag adrannau eraill nad ydynt yn y gorffennol wedi manteisio ar gyngor sydd ar gael gan y Tîm.

4.3.2 Fel yr uchod, mae canllawiau statudol yn cynghori mai bwriad y Ddyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 yw ymwreiddio'r ddyletswydd yn fuan wth feddwl a chynllunio busnes, gan gynnwys unrhyw bolisi, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau yn ogystal â gweithgareddau o ddydd i ddydd. Bydd y Tîm Cefn Gwlad a Chadwraeth yn parhau i gymryd rhan ym mhroses y Cynllun Corfforaethol pan ymgynghorir â'r Tîm ar ddogfennau drafft, ond dylid datblygu mecanwaith mwy ffurfiol i integreiddio'r ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn elfennau proses y cynllun corfforaethol a restrir yn 4.1.4 uchod, dros y cylch tair blynedd nesaf.

4.3.3 Yn arbennig, mae angen cydgysylltu rhwng y gwaith creu cynlluniau ac adrodd o ran y Ddyletswydd Bioamrywiaeth, y Cynllun Llesiant a'r Cynllun Newid Hinsawdd, er mwyn lleihau achosion o ail-wneud gwaith a chryfhau'r cysylltiadau rhwng y mentrau hyn. Er enghraifft, caiff camau i hyrwyddo Bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau eu cynnig a'u hadrodd ym mhob un o'r tair dogfen, ac mae hyn yn rhywbeth i'w groesawu yng nghyd-destun codi ymwybyddiaeth ynghylch yr Argyfwng Ecolegol a Hinsawdd. Fodd bynnag, o hyn allan dylid cynnal arfarniad o'r dull mwyaf effeithlon o esbonio sut rydym yn cynllunio ac yn adrodd ar gamau gweithredu i gynnal a gwella Bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.

4.3. Yn 2025 dylem fod mewn sefyllfa i adrodd ar:-

- Atebolrwydd dros sicrhau gweithredu yn gysylltiedig â bioamrywiaeth - y Prif Weithredwr neu'r Hyrwyddwr Bioamrywiaeth yw'r sawl a ddylai fod yn atebol yn y pen draw.
- Sut y sicrhawyd bod modd ceisio arbenigedd ecolegol lle bo angen, naill ai'n fewnol neu'n allanol.
- Sut y cafodd gwirfoddolwyr o blith y staff neu gymunedau lleol eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan drwy weithredu er budd bioamrywiaeth.
- Cymorth grant neu gyllid ar gyfer prosiectau bioamrywiaeth
- Gweithio mewn partneriaeth â Phartneriaethau Natur Lleol a Chynlluniau Gweithredu Adfer Natur Lleol
- Cefnogaeth i sefydliadau a phrosiectau amgylcheddol eraill, er enghraifft diwrnodau gwirfoddoli perthnasol a gynhaliwyd, cynlluniau grant a buddsoddi, gwelliannau perthnasol o ran Capasiti, ffynonellau cyllid wedi'u cyfeirio tuag at fioamrywiaeth, grwpiau amgylcheddol lleol/cenedlaethol sy'n ymgysylltu ac/neu'n cael eu cefnogi'n weithredol neu'n sylweddol

## 5.0 Cynlluniau Gweithredu Maes Gwasanaeth

5.1 O ran gweddill amcanion y Blaengynllun hwn, a restrir isod, bydd y Tîm Cefn Gwlad a Chadwraeth, yn benodol y Swyddog Ecoleg a Swyddogion Bioamrywiaeth, yn rhoi cyngor technegol i feysydd gwasanaeth ac adrannau unigol. Dyma'r amcanion hynny:-

- Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn a gwella'r rheolaeth arnynt.
- Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd.
- Ymdrin â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

5.2 Rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn yw'r rhai a restrir yn unol ag Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), ond yn rhan o'r amcan hwn dylem gynnwys pob rhywogaeth a warchodir o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1982, Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, a Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Mae’r ddeddfwriaeth hon a darnau eraill o ddeddfwriaeth yn rhoi amddiffyniadau a chyfrifoldebau penodol mewn perthynas â safleoedd dynodedig a rhywogaethau a warchodir, ac mae’n hollbwysig cadw’r dyletswyddau statudol hyn wrth arfer unrhyw un o swyddogaethau Cyngor Dinas Casnewydd.

5.3 Mae agweddau eraill ar y Ddyletswydd Bioamrywiaeth yn ymwneud â mesurau rhagweithiol ac ymarferol y gall Cyngor Dinas Casnewydd eu cyflwyno i gynnal a gwella bioamrywiaeth, yn hytrach na'i fod yn ymateb yn unig i’r amddiffyniad a roddir i rywogaeth neu safle drwy'r gyfraith. Efallai na fydd cyfleoedd am fesurau o'r fath bob amser yn amlwg i'r staff nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chadwraeth natur, felly mae'n bwysig i'r Tîm Cefn Gwlad a Chadwraeth ymgysylltu â'r holl feysydd gwasanaeth i sefydlu pa effaith y gallai eu swyddogaethau ei chael ar yr amgylchedd naturiol, a datblygu ymagweddau i wrthweithio unrhyw effeithiau negyddol a cheisio sicrhau gwelliannau.

5.4 Yn fras, dyma fyddai'r broses ar gyfer y gwaith ymgysylltu hwn. Mae hyn cyfateb i'r broses a ddefnyddiwyd yn flaenorol yng Nghasnewydd mewn perthynas â dyletswydd bioamrywiaeth Deddf NERC, y mae dyletswydd Deddf yr Amgylchedd, y ddeddf bresennol, wedi'i disodli:-

- Codi ymwybyddiaeth ynghylch y ddyletswydd bioamrywiaeth a'i goblygiadau
- Nodi swyddog(ion) arweiniol ym mhob gwasanaeth
- Sefydlu llinellau cyfathrebu clir â'r Tîm Cefn Gwlad a Chadwraeth
- Cynnal gweithdai i nodi'r effeithiau a datblygu cynllun cyflawni
- Rhoi cynllun cyflawni ar waith yn rhan o fusnes beunyddiol
- Cofnodi camau gweithredu ar ffurf y gellir eu cynnwys yn rhwydd mewn adroddiad
- Monitro, adrodd ac adolygu'r cynllun cyflawni yn flynyddol

5.5 Ceir enghreifftiau yn Nhabl 6 isod o'r modd y mae'r ddyletswydd bioamrywiaeth yn berthnasol i wahanol wasanaethau, ac o'r modd y gallai'r gwasanaethau hyn gyfrannu at gynnal a gwella bioamrywiaeth.

Tabl 6.

| Gwasanaeth | Effeithiau a Chyfleoedd Posibl |
|---|---|
| Adfywio'r Ddinas, Datblygu Economaidd, Gwaith a Sgiliau, Cynllunio, Rheoli Adeiladu a Datblygu Cyrchfan – Twristiaeth, Diwylliant, Amgueddfeydd, Y Bont Gludo, Llong Casnewydd, Casnewydd Fyw. | Canfu Asesiad Amgylchedd Naturiol y DU (UK NEA) y gallai ecosystemau'r DU, o ofalu amdanynt yn briodol, ychwanegu £30bn y flwyddyn at economi'r DU, ond o'u hesgeuluso, y byddai'r gost economaidd yn fwy na £20bn y flwyddyn. O roi darlun mwy manwl, mae seilwaith gwyrdd yn cyfrannu at economi'r ddinas drwy:<br><br>Mewnfuddsoddi: Mae seilwaith gwyrdd sydd wedi'i ddylunio a'i gynnal yn dda yn gwneud ardal yn fwy deniadol. Bydd mwy o bobl yn symud i ardaloedd deniadol sy'n cynyddu gwariant yn yr ardaloedd hynny, yn rhoi hwb i'r economi leol ac yn annog buddsoddiad pellach yn yr ardaloedd oddi amgylch. Mae gwneud ardal yn fwy deniadol yn golygu y bydd gan fwy o fusnesau ddiddordeb mewn symud i mewn i'r ardal honno, ac y bydd hi'n haws iddynt ddenu a chadw gweithlu a sylfaen o gwsmeriaid.<br><br>Gwerthoedd Eiddo: Dengys ffigurau gan y Comisiwn Pensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiledig (CABE) fod gwerth eiddo yn cynyddu wrth ymyl ardaloedd gwyrdd, gyda thai sy'n agos at barciau 8% yn ddrytach ar gyfartaledd nag eiddo tebyg sydd ymhellach i ffwrdd CABE (2005). Mae ymchwil wedi dangos bod y coed yn ychwanegu 15% i 25% at gyfanswm gwerth eiddo, yn dibynnu ar eu maint, eu cyflwr, eu lleoliad a'u rhywogaeth.<br><br>Gwariant ymwelwyr: Mae pa mor ddeniadol yw ardal ac ansawdd ei pharciau yn effeithio ar nifer yr ymwelwyr sy'n cael eu denu i'r ardal honno, ac yn gwario ynddi. Mae'r gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gyfer ac yn ystod ymweliadau o'r fath yn cyfrannu at yr economi leol a rhanbarthol. Mae gwariant uniongyrchol yn cronni i'r busnesau hynny sy'n gweithredu ar y seilwaith gwyrdd (ee digwyddiadau, caffis mewn parciau) a gwariant anuniongyrchol yn cronni i eraill gerllaw (ee, siopau, gwestai, tacsis ac ati).<br><br>Arbed costau amgylcheddol: Mae SG yn darparu gwasanaethau rheoleiddio pwysig fel hidlo llygredd, lleihau'r risg o lifogydd a lliniaru tymheredd eithafol. Ceir tystiolaeth dda y gall SG felly leihau costau'n gysylltiedig â difrod, a'i fod yn aml yn ffordd fwy cost-effeithiol o gyrraedd targedau amgylcheddol nag atebion mecanyddol. Gallai effaith gysgodol coed arbed 3% i 9% ar filiau ynni, ac amcangyfrifwyd bod effaith gysgodol coed yn creu arbedion o oddeutu 18% ar filiau gwresogi. (Blaengynllun BRED Cyngor Caerdydd 2019)<br><br>Gelwir y cyfraniadau hyn yn aml yn 'Wasanaethau Ecosystem', ac mae ecosystem fwy cydnerth yn fwy tebygol o ddarparu'r gwasanaethau hyn. Mae ecosystemau mwy bioamrywiol yn fwy cydnerth, felly mae cynnal a gwella bioamrywiaeth yn allweddol er mwyn harneisio'r gwasanaethau ecosystem hyn.<br><br>Bydd polisïau cynllunio sy'n anelu i gyflawni'r ddyletswydd bioamrywiaeth drwy'r system gynllunio yn cael eu drafftio yn y CDLlN fel yr oeddent yn y CDLl presennol, a bydd Canllawiau Cynllunio Atodol wedyn yn cael eu llunio i ddisodli'r CCA Bywyd Gwyllt a Datblygu presennol, sydd bellach wedi dyddio.<br><br>Drwy'r system gynllunio bydd angen pennu maint y gwelliannau bioamrywiaeth mewn datblygiadau newydd, ee cyfran y cartrefi newydd ac arnynt flychau ystlumod ac adar wedi'u gosod arnynt.<br><br>Mae proses wedi'i datblygu i integreiddio seilwaith gwyrdd i bolisi cynllunio, ac i greu Polisi SG effeithiol. Dylid ystyried cynnwys Polisi Seilwaith Gwyrdd yn y CDLlN sy'n cyfuno ecoleg, bioamrywiaeth, coed, pridd, tirweddu, draenio cynaliadwy, mannau agored cyhoeddus a theithio llesol. |

| | |
|---|---|
| Tai Strategol, Anghenion Tai a Digartrefedd, Y Grant Cymorth Tai/Cefnogi Pobl, Adfywio Cymunedol, Cydlyniant Cymunedol, VPRS. | Canfuwyd bod darparu mannau gwyrdd yn gwneud trefi a dinasoedd yn llawer harddach a mwy deniadol. Mae'r cysyniad o ansawdd amgylchedd lleol yn eang, a gall gynnwys llawer o elfennau, gan gynnwys llygredd a glanweithdra, ansawdd gweledol a diogelwch personol, ond gall seilwaith gwyrdd wella'r sefyllfa bresennol. (Forest Research (2010)).<br><br>'*Wrth i drefi gystadlu fwyfwy â'i gilydd i ddenu buddsoddiad, mae presenoldeb parciau, sgwariau, gerddi a mannau cyhoeddus eraill deniadol yn datblygu'n arf hanfodol ym byd busnes a marchnata. Mae cwmnïau'n cael eu denu i leoliadau sy'n cynnig mannau cyhoeddus sydd wedi'u dylunio'n dda ac wedi'u rheoli'n dda. Mae'r rhain yn eu tro yn denu ac yn cadw cwsmeriaid a gweithwyr hapus, iach a medrus, a hefyd yn rhoi delwedd gadarnhaol a deinamig i gwmni. Dylid felly ystyried SG yn rhan annatod o unrhyw strategaeth busnes neu adfywio, gan gynnwys Dinas-ranbarthau, Ardaloedd Gwella Busnes a Pharthau Menter*.' Ymddiriedolaethau Natur Cymru (2016).<br><br>Gall plannu ar gyfer bioamrywiaeth, gan gynnwys tirlunio meddal, plannu coed a defnyddio dolydd blodau gwyllt oll gyfrannu at adfywio ardal. |
| Gwastraff a Glanhau, Tiroedd, Gwarchod y Cyhoedd, Parciau a Hamdden, Mynwentydd a'r Amlosgfa, Newid Hinsawdd, Bioamrywiaeth. | Bydd y Tîm Cefn Gwlad a Chadwraeth yn parhau i weithio gyda thimau eraill o fewn adain yr Amgylchedd a Hamdden, gan gynnwys y Tîm Cynnal a Chadw Tiroedd, y Tîm Parciau a Hamdden, a'r Tîm Profedigaeth sy'n rheoli mynwentydd y Ddinas. Drwy hyn, mae'r gofyniad i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn cael ei gyfleu wrth y staff sy'n gyfrifol am reoli parciau, gerddi, mannau agored cyhoeddus, Gwarchodfeydd Natur Lleol a choed Cyngor Dinas Casnewydd. Er enghraifft, mae'r timau hyn o fewn adran yr Amgylchedd a Hamdden wedi cydweithredu â mentrau fel 'No Mow May' a Nid yw Natur yn Daclus, sy'n anelu i wella ardaloedd glaswelltog i beillwyr fel pryfed, a bydd y mentrau hyn a mentrau eraill yn parhau. Bydd y timau hyn hefyd yn parhau i fanteisio ar gamau gweithredu er budd bioamrywiaeth drwy gyfres o grwpiau gwirfoddol, a fydd yn creu cynnydd mawr i'w capasiti i reoli a gwella seilwaith gwyrdd yn y Ddinas.<br><br>Bydd union faint ymyriadau bioamrywiaeth, fel arwynebedd a lleoliad y tir lle ceir torri a chasglu a thorri gwair yn llai aml, yn destun trafodaeth barhaus, gan ystyried dymuniadau ac anghenion preswylwyr lleol, a'r angen i ddiogelu'r cyhoedd, gan gynnwys ystyriaethau diogelwch tân. |
| Priffyrdd, Trafnidiaeth, Llifogydd, Fflyd, Prosiectau Peirianneg, Teithio Llesol, SAB, Argyfyngau Sifil. | Mae potensial i gynlluniau priffyrdd, gan gynnwys cyflwyno llwybrau teithio llesol ar wahân, gynyddu achosion o ddarnio cynefinoedd, un o'r prif ffactorau wrth wraidd dirywiad mewn bioamrywiaeth. Wrth baratoi'r cynlluniau hyn, mae hi felly'n hollbwysig rhoi ystyriaeth fuan i'r effeithiau posibl ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Bydd y Swyddog Ecoleg yn parhau i roi cyngor i'r Corff Cymeradwyo SDCau, yn arbennig er mwyn sicrhau y caiff y chwe safon ar gyfer SDCau, gan gynnwys y Safon Bioamrywiaeth, eu gweithredu mewn cynlluniau draenio cynaliadwy. |
| Cyfreithiol, Yswiriant, Cofrestru, Crwner, Gwasanaethau Democrataidd, Cofrestru Etholiadol, - Cefnogi Prosiectau Buddsoddiad Economaidd Mawr. | Dylai'r gwasanaethau hyn fod yn ymwybodol o ddyletswyddau statudol yng nghyswllt bioamrywiaeth, a'r warchodaeth a roddir i safleoedd a rhywogaethau penodol, fel eu bod yn gallu cynorthwyo gwasanaethau eraill i gyflawni'r ddyletswydd bioamrywiaeth. |
| AD a Datblygu Sefydliadol/Iechyd a Diogelwch, Polisi a Phartneriaeth, Hyb Gwybodaeth, Gwasanaethau Digidol a Chwynion, Trawsnewid Busnes, Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu, Asedau. | Er mwyn cyfathrebu ynghylch y ddyletswydd bioamrywiaeth ac ymgysylltu â'r staff bydd angen mewnbwn gan y tîm Cyfathrebu, a bydd cynnwys y cyhoedd mewn cynlluniau cadwraeth natur yn gyfle i staff PR gyfrannu at y ddyletswydd hon. Bydd angen datblygu hyfforddiant mewnol a sesiynau codi ymwybyddiaeth mewn cydweithrediad ag AD, ac mae gan yr Adran Trawsnewid Busnes ran i'w chwarae er mwyn ymwreiddio'r ddyletswydd bioamrywiaeth ar draws y sefydliad. |
| Cyfrifeg, Incwm a Threth, Budd-daliadau, Archwilio Mewnol, Caffael a Thaliadau, Gwasanaethau Cwsmeriaid, - Cefnogi Prosiectau Buddsoddi Economaidd Mawr. | Caffael, ee, sicrhau bod cyflenwadau swyddfa wedi dod o ffynonellau cynaliadwy (ee, wedi'i gynhyrchu'n lleol ac/neu o ddeunydd wedi'i ailgylchu) Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnig y dylid ymwreiddio ystyriaethau cynaliadwyedd yn gadarn mewn arferion caffael, sy'n cynnwys rhoi hyfforddiant i staff caffael ar egwyddorion caffael cynaliadwy, cynnal asesiadau risg cynaliadwyedd ar gyfer caffaeliadau o werth uwch ac ystyried costau oes gyfan. |
| Timau Gwaith Cymdeithasol Plant, Cyfiawnder Ieuenctid, Diogelu, VAWDASV, Preswyl a Gweithrediadau, Maethu a Mabwysiadu. | Mae mannau gwyrdd yn cynnig cyfleoedd i gynyddu gweithgarwch cymdeithasol, gwella cydlyniant cymunedol, datblygu ymlyniad lleol a gostwng lefelau troseddu, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig (Bell *et al*., 2008; Weldon*et al.*, 2007). Dangoswyd, os oes mannau gwyrdd a nodweddion naturiol yn bresennol ac ar gael yn lleol, fod hynny'n syml yn annog pobl i wneud mwy o ddefnydd o'u mannau agored, ac ar ôl mynd allan i'r llefydd hynny, fod y mannau gwyrdd yn helpu i hyrwyddo cymdeithasu cadarnhaol. Er enghraifft: |
| Timau Gwaith Cymdeithasol Oedolion, Gwasanaethau Preswyl a Dydd, Datblygu Gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyswllt Cyntaf, Gartref yn Gyntaf, Gofal a Reolir, Comisiynu, Eiddilwch. | |

| | |
|---|---|
| Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Gwasanaethau Ieuenctid, Atal Plant, Blynyddoedd Cynnar, GGD a Chwarae, GCA, Camddefnyddio Sylweddau. | 83% yn fwy o unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgarwch cymdeithasol mewn mannau gwyrdd Sullivan *et al*. (2004) o gymharu â mannau concrit/sy'n brin o lystyfiant.<br><br>Canfu astudiaeth gan fod cysylltiad cadarnhaol rhwng nodweddion cymdogaeth megis parciau a gallu trigolion i ryngweithio'n gadarnhaol. Cohen *et al.* (2008).<br><br>Mewn arolwg o 750 o bobl a gymerodd ran yn y Fenter Cerdded Llwybr Iechyd, canfu Dawson*et al.*(2006) fod teithiau cerdded yn golygu mwy na gweithgaredd corfforol yn unig i lawer o'r cyfranogwyr; roedd mwy o gyfle i gysylltu a chymdeithasu yr un mor bwysig.<br><br>Ceir tystiolaeth gynyddol i awgrymu y gellir gwella iechyd corfforol a meddyliol drwy gynnig mwy o fynediad at fannau gwyrdd:-<br><br>**Gweithgarwch Corfforol:** Ceir cyswllt uniongyrchol rhwng gwneud gweithgarwch corfforol am 30 munud a lleihau'r risg o strôc, clefyd cardiofasgwlaidd, gordewdra, rhai mathau o ganser a diabetes math 2. Ar raddfa genedlaethol, mae lefelau gweithgarwch corfforol yn uwch mewn ardaloedd lle ceir mwy o fannau gwyrdd, gyda'r bobl sy'n byw agosaf at yr ardaloedd gwyrddaf yn bodloni'r swm o weithgarwch corfforol a argymhellir. Mae rhai sy'n byw'n nes at fan gwyrdd yn fwy tebygol o'i ddefnyddio, a hynny'n fwy aml. Mae astudiaethau y tu allan i'r DU yn awgrymu bod pobl sy'n byw'n agosach at fannau gwyrdd o ansawdd da yn fwy tebygol o wneud mwy o weithgarwch corfforol.<br><br>**Iechyd Meddwl a Llesiant:** Ceir cyfraddau uwch o seicosis ac iselder mewn ardaloedd trefol, ac yn y DU mae 1 o bob 4 yn profi problemau iechyd meddwl. Gall mannau gwyrdd lleol fod yn llecynnau pwysig i gymdeithasu ac integreiddio, a all gynyddu llesiant y cyhoedd yn anuniongyrchol. Gall mynediad at fannau gwyrdd hefyd greu budd mwy uniongyrchol a byrdymor i iechyd meddwl a llesiant.<br><br>**Defnyddio Cyswllt â Natur i Ddibenion Therapiwtig:** Yn ôl cleifion a staff ysbyty, maent yn teimlo'n hapusach ac yn dawelach ar ôl treulio amser mewn gardd neu ardal awyr agored, gan awgrymu y gallai ysbytai gynnwys ardaloedd gwyrdd i wella llesiant staff gofal iechyd a chleifion. Mae rhai dangosyddion straen seicolegol, gan gynnwys pwysedd gwaed a chyflymder y galon, yn is ymhlith cyfranogwyr sy'n dod i gysylltiad ag ysgogiadau gweledol a chlywedol yn gysylltiedig â natur. Bydd lefelau cortisol mewn poer (sydd hefyd yn gysylltiedig â straen) yn gostwng wrth fynd i amgylchedd naturiol.<br><br>Effeithiau **anuniongyrchol ar iechyd:** Mae trefoli yn difrodi'r amgylchedd ac yn creu ystod o oblygiadau o ran iechyd dynol. Gallai cynyddu llystyfiant trefol helpu i leihau:<br><br>Llifogydd - gall 10,000 o goed gadw oddeutu 35m litr o ddŵr y flwyddyn, gan leihau'r risg o lifogydd<br>Llygredd sŵn - gall border o goed a llwyni 30 metr o led greu gostyngiad o 5-10 desibel mewn lefelau sŵn.<br>Llygredd aer – gallai dyblu'r gorchudd coed ar draws Gorllewin Canolbarth Lloegr greu gostyngiad o 25% i'r crynodiad o ddeunydd gronynnol mân 25%, gan atal 140 o farwolaethau cynamserol cysylltiedig â llygredd aer yn y rhanbarth.<br>Effaith 'ynys wres' drefol (UHI) – mae llystyfiant yn creu cysgod, sy'n lleihau'r risg o drawiad gwres a lludded. |
| Gwella Ysgolion, Ymgysylltu a Dysgu, Cynhwysiant/ADY, Adnoddau a Chynllunio, GEMS, Gwasanaeth Cerdd. | Bydd y Swyddog Bioamrywiaeth ac Addysg yn parhau i ddatblygu rhaglenni dysgu gydag ysgolion cynradd, ac i annog mwy o ysgolion i gymryd rhan yn y cytundeb lefel gwasanaeth. |
| Norse Casnewydd | Gall gwaith cynnal a chadw adeiladau a strwythurau effeithio ar rywogaethau a warchodir fel ystlumod ac adar sy'n magu, ac y gall cynnal a chadw mannau agored, gan gynnwys coed a gwrych hefyd effeithio ar y rhain, ac ar rywogaethau eraill. Mae mannau agored yn cynnig cyfleoedd i blannu coed, dolydd blodau gwyllt a gwelliannau eraill i fioamrywiaeth. Gall gosod blychau ystlum ac adar ac adeiladau hefyd helpu'r rhywogaethau hyn, ynghyd â mesurau fel bylchau i fywyd gwyllt o dan ffensys a chynlluniau tirweddu mwy amrywiol sy'n cynnig mwy o amrywiaeth o ran cynefin na porfa o laswellt sy'n cael ei thorri i edrych dwt. Mae angen cysoni mesurau o'r fath â phwysau eraill ar fannau agored, fel yr angen am fynediad a thir hamdden, gweledEdd, diogelwch tân a thaclusrwydd. |

5.5 Dyma adeg dda i ailbwysleisio gofynion cydymffurfio'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth, y bydd angen eu hadlewyrchu mewn unrhyw Gynlluniau Gweithredu Maes Gwasanaeth. Dylai unrhyw Gynllun Gweithredu ddangos sut mae'n cyfrannu at y nodau, yr amcanion a'r targedau a geir yn yr ysgogiadau cydymffurfio hyn.

Tabl 7.

| Sbardun Cydymffurfio | Nodau/amcanion/targedau |
|---|---|
| Y rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau pwysig iawn o ran cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru, a gyhoeddwyd o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd. | Rhestrau Cynefinoedd a Rhywogaethau |
| Yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (yr 'Adroddiad SoNaR') a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Adran 8 o Ddeddf yr Amgylchedd | Asesiad nod 1: Gwarchod a gwella stociau o adnoddau naturiol |
| | Asesiad nod 2: Ecosystemau cydnerth |
| | Asesiad nod 3: Mannau iach i bobl |
| | Asesiad nod 4: Economi adfywiol |
| Unrhyw Ddatganiad Ardal a gyhoeddir o dan Adran 11 o Ddeddf yr Amgylchedd - Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru yn yr achos hwn. | Cysylltu Ein Tirweddau |
| | Gwent yn Barod am yr Hinsawdd |
| | Iach, Egnïol a Chysylltiedig |
| | Ffyrdd o Weithio |
| Thema Gyflawni amcanion y cynllun newid hinsawdd: Ein Tir | Cydnerthedd Ecosystemau |
| | Coed a Choetir |
| | Mannau Gwyrdd Trefol |
| | Tir ar Brydles sy'n Eiddo i'r Cyngor |
| Thema Gyflawni amcanion y cynllun newid hinsawdd: Ein Rôl Ehangach | Creu Lleoedd a Rheoli Adeiladu |
| | Ynni |
| | Llifogydd |
| | Gwastraff |
| | Digidol |
| | Partneriaethau a Chymunedau |
| Amcanion llesiant Casnewydd yn Un | Gwella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth |
| | Hyrwyddo adfywiad a thwf economaidd gan warchod yr amgylchedd ar yr un pryd |
| | Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn |
| | Adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy |
| Amcanion Drafft BGC Gwent | Rydym am greu Gwent sy'n deg a chyfartal i bawb |
| | Rydym am greu Gwent ac ynddi gymunedau cyfeillgar, diogel a hyderus |
| | Rydym am greu Gwent lle caiff yr amgylchedd naturiol ei warchod a'i wella |

**Atodiad 1. Cyfeiriadau**

Bell, S., Hamilton, V., Montarzino, A., Rothnie, H., Travlou, P. and Alves, S. (2008). Greenspace and quality of life: a critical literature review. Greenspace Scotland, Stirling.

CABE (2005). 'Does Money Grow in Trees?'

CABE 2009 'Grey to Green' Campaign: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20110118095356/http:/www.cabe.org.uk/grey-to-green

Blaengynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Caerdydd 2019.

Cohen, D. A., Inagami, S. and Finch, B. (2008). The built environment and collective efficacy. Health & Place 14, 198–208.

CTLA (2003). Summary of tree valuation based on CTLA approach. Council of Tree and Landscape Appraisers.

Dawson, J., Boller, I., Foster, C. and Hillsdon, M. (2006). National evaluation of health walk schemes. Department of Health, London.

Duffy, A., Jefferies, C., Waddell, G., Shanks, G., Blackwood, D. and Watkins, A. (2008). A cost comparison of traditional drainage and SUDS in Scotland. Water Science and Technology 57 (9), 1451–1459.

Forest Research (2010). Benefits of green infrastructure. Report to Defra and CLG. Forest Research, Farnham.

Gill, S.E., Handley, J.F., Ennos, A.R. and Pauleit, S. (2007). Adapting cities for climate change: the role of green infrastructure. Built Environment 33 (1), 115–133.

Twf Gwyrdd yng Nghymru: Buddsoddi yn y Dyfodol. Llywodraeth Cymru 2014.

Green Infrastructure's contribution to economic growth: a review. A Final Report for Defra and Natural England. eftec, July 2013

Grey to Green: How we shift funding and skills to green our cities. CABE 2009.
http://ec.europa.eu/environment/nature/ecosystems/docs/green_infrastructures/
1_EN_autre_document_travail_service_part1_v2.pdf

Liu, Y. and Harris, D. (2008) Effects of Shelterbelt Trees on Reducing Heating-Energy Consumption of Office Buildings in Scotland, Applied Energy, 85 (2–3), 115–127.

The Natural Capital Committee 2017 http://www.naturalcapitalinitiative.org.uk/ accessed 27/01/2017

Astudiaeth Ddichonoldeb Seilwaith Gwyrdd Canol Dinas Casnewydd Mai 2022

.
Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fywyd Gwyllt a Datblygu Cyngor Dinas Casnewydd Awst 2015.

Cynllun Datblygu Lleol Casnewydd 2011-26. Mabwysiadwyd Ionawr 2015.

Cynllun Llesiant Lleol Casnewydd 2018 – 23. Local Well-being Plan 2018-23 (Saesneg Terfynol) (newport.gov.uk)

Pettigrew A.A., 'The Public Parks and Recreation Grounds of Cardiff', 1926-1932. Unpublished manuscript, Yn eiddo i Gyngor Caerdydd ac ar gael i'w weld yn Llyfrgell Caerdydd.

Polisi Cynllunio Cymru. Argraffiad 10 December 2018. Llywodraeth Cymru.

POST Note 538 Green Space and Health. Parliamentary Office of Science and Technology. October 2016.

POST Note No. 377. The Ecosystem Approach. Parliamentary Office of Science and Technology May 2011.

Rawlings, R., Mustow, S., Pinney, C. and Sterne, S. (1999) Environmental rules of thumb, Technical Note for the Department of the Environment, Transport and the Regions. Bracknell: The Building Services Research and Information Association.

Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru / Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru

Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) Cymru 2020. Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) Cymru 2020

Sullivan, W. C., Kuo, F. E. and DePooter, S. F. (2004). The fruit of urban nature: vital neighbourhood spaces. Environment and Behavior 36 (5), 678–700.

The Economic Benefits of Green Infrastructure – an Assessment Framework for the NWDA; Veitch & Farley (2001).

The Economic Value of Green Infrastructure. Natural Economy Northwest. 2008.

The UK Low Carbon Transition Plan: National strategy for climate and energy. Crown Copyright July 2009.

Tibbatts, D. (2002). The benefits of parks and greenspace. The Urban Parks Forum.

Tiwary, A., Sinnett, D., Peachey, C.J., Chalabi, Z., Vardoulakis, S., Fletcher, T., Leonardi, G., Grundy, C., Azapagic, A. and Hutchings, T.R. (2009). An integrated tool to assess the role of new planting in PM10 capture and the human health benefits: a case study in London. Environmental Pollution 157, 2645–2653.

UK Natural Environment Assessment (UK NEA)

Weldon, S. and Bailey, C. in collaboration with O'Brien, L. (2007). New pathways to health and well-being: summary of research to understand and overcome barriers to accessing woodland. Forestry Commission, Scotland.

Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru (2016) – Seilwaith Gwyrdd: Catalydd ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru – Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru

